



# Estyn

*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

## Medrau ar gyfer dysgwyr hŷn

# Effaith dysgu oedolion yn y gymuned ar les dysgwyr hŷn

Ionawr 2012



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau arbenigol annibynnol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd; a
- ▲ dysgu troseddwyr.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/adroddiad penodol.

|   |           |
|---|-----------|
| <b>Crynodeb</b>   | <b>1</b>  |
| <b>Prif ganfyddiadau</b>  | <b>2</b>  |
| <b>Argymhellion</b>   | <b>4</b>  |
| <b>Cyd-destun</b>   | <b>5</b>  |
| <b>1 Medrau ar gyfer cyflogaeth ac adfywio economaidd</b>                               | <b>7</b>  |
| <b>2 Medrau ar gyfer lles</b>   | <b>8</b>  |
| <b>3 Profiad dysgwyr hŷn o ddysgu oedolion yn y gymuned</b>                             | <b>9</b>  |
| <b>4 Dewisiadau cwricwlwm dysgwyr hŷn</b>   | <b>14</b> |
| <b>5 Partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned a chynllunio ar gyfer dysgu cymunedol</b> | <b>18</b> |
| <b>6 Dysgu oedolion yn y gymuned a Llywodraeth Cymru</b>                                | <b>20</b> |

**Atodiad 1: Prosiectau sy'n cefnogi anghenion pobl hŷn**

**Atodiad 2: Sail y dystiolaeth**

**Atodiad 3: Crynodeb o'r boblogaeth yn y Deyrnas Unedig, 2010**

**Atodiad 4: Partneriaethau DOG yng Nghymru**

**Atodiad 5: Gyrfa Cymru; cysylltiadau i oedolion – dysgwyr hŷn  
2008/2009**

**Atodiad 6: Monitor Pobl Hŷn**

**Atodiad 7: Dadansoddiad o sampl o ymrestriadau dysgwyr DOG  
2007-2010**

**Atodiad 8: Cefndir i'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru**

**Atodiad 9: Datganiad polisi dysgu yn y gymuned**

**Atodiad 10: Crynodeb o ymatebion Cydlynwyr Pobl Hŷn**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

## Crynodeb

- 1 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth dda i ddysgwyr hŷn ac yn gweithio gyda 16 o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned (DOG) ledled Cymru<sup>1</sup> i ddarparu dysgu gydol oes i ddysgwyr hŷn yn y gymuned. Mae'r partneriaethau hyn yn fwyaf effeithiol pan fyddant yn cynorthwyo dysgwyr rhwng 50 a 65 oed nad ydynt mewn cyflogaeth neu sydd mewn grwpiau nad ydynt yn manteisio ar ddysgu y tu allan i'w cymunedau. Mae llawer o'r bobl hŷn hyn wedi datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) trwy gyfleoedd dysgu yn y gymuned ac mae hyn wedi gwella eu cyflogadwyedd.
- 2 Fodd bynnag, mae'r pwyslais cyfredol ar fedrau ar gyfer cyflogaeth wedi arwain at fylchau yn y ddarpariaeth i ddysgwyr hŷn, sef rhai dros 65 oed yn bennaf, sydd wedi ymddeol a rhai sy'n arunig neu mewn sefyllfaoedd agored i niwed. Nid yw'r dysgwyr hŷn hyn yn gallu manteisio ar gyfleoedd datblygu addysg a medrau a all gyfrannu at eu hiechyd a lles parhaus yn ystod y cam nesaf yn eu bywydau. Nid yw'r cwricwlwm sy'n cael ei gynnig i'r dysgwyr hŷn hyn, gan gynnwys y rhai sy'n gallu talu am gyrsiau, yn hyblyg, nid yw'n bodloni eu hanghenion yn ddigonol ac nid yw'r hyrwyddo dysgu gydol oes. Mae ymrestriadau mewn addysg i oedolion yn disgyn yn sylweddol yn y grŵp oedran dros 70.
- 3 Nid yw'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS)<sup>2</sup> ac adrannau eraill Llywodraeth Cymru'n gwneud digon ar hyn o bryd i gydgyssylltu elfennau gwahanol y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a'r datganiad polisi Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru<sup>3</sup> i wella'r ddarpariaeth a deilliannau i bob unigolyn hŷn.
- 4 Mewn ychydig o achosion, mae cysylltiadau da rhwng y partneriaethau DOG a'r byrddau gwasanaeth lleol. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o fyrddau gwasanaeth lleol yn defnyddio profiad partneriaethau DOG i ddatblygu ymatebion da i anghenion pobl hŷn.
- 5 Hefyd, mae'r mwyafrif o bartneriaethau DOG yn colli cyfleoedd i feithrin cysylltiadau cryf â Chydlynwyr Pobl Hŷn ledled Cymru. Oherwydd hynny, nid yw partneriaethau DOG yn defnyddio gwybodaeth a chysylltiadau'r Cydlynwyr Pobl Hŷn bob tro i ystyried anghenion pob unigolyn hŷn.

<sup>1</sup> Atodiad 4 Rhestr o bartneriaethau DOG yng Nghymru

<sup>2</sup> Yn ddiweddar, cafodd Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cymru ei hailenwi'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS)

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru

## Prif ganfyddiadau

- 6 Mae'r rhaglenni dysgu ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru yn canolbwyntio ar wella cymwysterau a lefelau medrau. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu llawer o bobl i wella eu rhagolygon gwaith ac i ddod o hyd i gyflogaeth. Mae rhai enghreifftiau lle mae darparwyr mewn partneriaeth DOG yn gweithio'n dda i gytuno ar drefniadau ar y cyd i gynnig lefelau da o gymorth i ddysgwyr sy'n dysgu mewn canolfannau cymunedol ac allgymorth lleol.
- 7 Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn magu hunan-barch a hyder trwy ddysgu oedolion yn y gymuned. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn symud ymlaen i lefelau dysgu uwch. Hefyd, mae llawer ohonynt yn ymestyn eu dealltwriaeth o bynciau nad ydynt wedi'u hastudio'n flaenorol. Mae eraill yn parhau i gyfrannu at weithgareddau teuluol a chymunedol gan ddefnyddio'r medrau y maent wedi'u dysgu.
- 8 Mae dysgwyr hŷn sy'n chwilio am waith o hyd ac yn dymuno gwella eu cymwysterau yn dangos brwdfrydedd ac ymroddiad wrth ailymuno â byd dysgu. Cânt eu cynorthwyo'n dda gan ychydig o bartneriaethau DOG, lle mae dulliau cynllunio medrus ac ystyriol yn canolbwyntio ar anghenion dysgwyr hŷn. Hyd yn oed pan fo'r cymorth yn dda yn gyffredinol, nid yw gwasanaethau cyfarwyddyd gyrfaoedd cydlynol yn cael eu defnyddio digon.
- 9 Wedi i bobl hŷn fynd heibio i'r oedran pan fyddant yn chwilio am waith, mae eu cysylltiad â rhaglenni cymunedol lleol yn lleihau'n gyflym. Y rheswm am hyn yw bod y cwricwlwm a'r meysydd pwnc sy'n cael eu cynnig yn ymwneud ag ennill cymwysterau bron bob tro, ac nid oes ar y dysgwyr llawer hŷn hyn eu heisiau na'u hangen.
- 10 Mae dadansoddi tueddiadau sy'n deillio o graffu ar gofnodion ymrestru tua 13,000 o ddysgwyr hŷn yn dangos bod pobl y tu hwnt i oedran gweithio eisiau parhau i ymrestru ar gyrsiau a dosbarthiadau sy'n eu helpu i gadw'n iach ac i gadw i fyny â'u diddordebau. Fodd bynnag, mae ymrestriadau'n gostwng yn sylweddol yn y grŵp oedran dros 70.
- 11 Roedd cyfweiliadau gyda phobl hŷn yn amlygu fel mae colli hyder a chysylltiadau â'r gymuned leol yn cael effaith negyddol gyflym ar eu lles. Mae pobl hŷn yn cydnabod y gall yr ysgogiad y mae dysgu ei roi i'w bywydau eu helpu i gadw'n weithgar ac yn annibynnol.
- 12 Nid yw llawer o bartneriaethau DOG yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer sbectrwm eang dysgu pobl hŷn. Nid ydynt yn gwneud digon o ddefnydd o'r cyllid sydd ar gael i gynnig cwricwlwm hyblyg sy'n bodloni anghenion a dyheadau dysgwyr hŷn.
- 13 Nid oes gan adrannau Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol strategaeth glir i fodloni anghenion y boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio yng Nghymru. Nid ydynt yn cyfuno adnoddau sydd wedi'u hanelu at bobl hŷn er mwyn datblygu cynlluniau sydd wedi'u hystyried yn dda ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol.

- 14 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod tystiolaeth feintiol gref fod cyfranogi mewn dysgu yn ddiweddarach mewn bywyd yn atgyfnerthu annibyniaeth a gallu pobl i ofalu amdanynt eu hunain, a gall hefyd arafu datblygiad demensia, sydd felly'n gohirio'r angen am ofal preswyl drud. Fodd bynnag, nid oes cysylltiadau digon da yn cael eu gwneud rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo lles mewn henaint. Hefyd, mae sail ddyngarol gref dros sicrhau bod darpariaeth ar gael i bobl hŷn a fydd yn cefnogi Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, sef y dylai'r wladwriaeth gefnogi eu hannibyniaeth, eu cyfranogiad, eu gofal, eu hunangyflawniad a'u hurddas.

## Argymhellion

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1 fonitro gweithredu'r polisi cyflenwi dysgu cymunedol i wella cydweithio ar draws yr adrannau, cyfarwyddiaethau a'r canghennau sy'n gyfrifol am bobl hŷn; a
- A2 chasglu data ynghylch cyfleoedd dysgu yn y Monitor Pobl Hŷn, fel ei fod yn monitro lles trwy ddysgu yn ogystal â chael gwaith.

### Dylai'r Adran Addysgu a Sgiliau:

- A3 gydweithio ag adrannau eraill Llywodraeth Cymru i gronni pob cyllideb sydd â'r nod o gefnogi dysgu gydol oes a lles pobl hŷn;
- A4 cytuno ar ddangosyddion perfformiad neu fesurau deilliant i bartneriaethau DOG fonitro eu gwaith gyda phobl hŷn a'u cynorthwyo i fyw'n annibynnol; ac
- A5 annog a chynorthwyo partneriaethau DOG i gynorthwyo pobl hŷn i drefnu a rheoli eu dysgu eu hunain.

### Dylai partneriaethau DOG:

- A6 gynyddu hyblygrwydd mewn dulliau cyflwyno, yn newisiadau'r cwricwlwm, hyd sesiynau a'r dulliau asesu ar gyfer pobl hŷn, yn enwedig y rhai dros 70 oed.

### Dylai awdurdodau lleol:

- A7 sicrhau bod byrddau gwasanaeth lleol yn gwella eu defnydd o arbenigedd partneriaethau DOG mewn cyflwyno dysgu gydol oes a gwasanaethau cydgysylltiedig ar gyfer pobl hŷn.

## Cyd-destun

### Y boblogaeth pobl hŷn yng Nghymru

- 15 Mae gan Gymru boblogaeth sy'n heneiddio. Mae tua 38% o gyfanswm poblogaeth Cymru dros 50 oed. Mae hyn yn uwch nag unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig<sup>4</sup>. Fodd bynnag, mae dosbarthiad pobl hŷn yn amrywio ledled Cymru. Mae gan tua hanner yr ardaloedd awdurdodau lleol niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl hŷn, ac mae gan ardaloedd sy'n boblogaidd ymhlith pobl sydd wedi ymddeol, fel Sir Gaerfyrddin, Ceredigion ac Ynys Môn, y canrannau uchaf o bobl hŷn sy'n cyfrif am eu poblogaethau.
- 16 Mae disgwyl i faint y boblogaeth dros 50 oed gynyddu. Ym 1948, roedd 40% o bobl yn marw cyn cyrraedd oedran pensiwn, ond erbyn 1996 roedd hyn wedi lleihau i 7%. Mae'r ffigur rhagamcanol ar gyfer pobl hŷn dros 85 oed yn 2034 2.5 gwaith yn fwy nag yn 2009.
- 17 Mae angen i Gymru ystyried anghenion dinasyddion hŷn yn fwy. Mae Swyddfa Ystadegau Gwladol Cymru<sup>5</sup> wedi cyhoeddi'r crynodebau canlynol ynghylch pobl hŷn.
- Mae un o bob tri o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pennau eu hunain ynghyd â bron un o bob dau o bobl dros 85 oed.
  - Mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 19% o bobl dros 65 oed.
  - Mae cyfran y bobl dros 80 oed fymryn yn uwch na chyfartaledd y DU neu'r UE, ac o leiaf un pwynt canran yn uwch na thros hanner yr holl wledydd yn yr UE (Sweden a'r Eidal yn unig sydd â chyfran uwch).
- 18 Yn ogystal:
- mae rhai dros 60 oed yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ysbyty cleifion mewnol;
  - mae rhai dros 70 oed ddwywaith yn fwy tebygol o'u defnyddio â rhai dan 60 oed;
  - mae nifer y bobl dros 50 oed sy'n cael eu trin yn yr ysbyty wedi cynyddu o draean yn ystod y deng mlynedd diwethaf; ac
  - mae pobl dros 75 oed ddwywaith yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal dydd y gwasanaethau cymdeithasol a theirgwaith yn fwy tebygol o ddefnyddio gofal cartref neu bryd ar glud na phobl rhwng 65 a 75 oed.

### Cyflenwi Dysgu Cymunedol

- 19 Lanswyd y polisi Cyflenwi Dysgu Cymunedol gan Lywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2010. Mae'r datganiad polisi yn amlinellu ystod o grwpiau blaenoriaeth ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned y dylid neilltuo o leiaf 80 y cant o'r holl gyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol a Sefydliadau Addysg Bellach ar gyfer darpariaeth DOG

<sup>4</sup> Atodiad 3 Crynodeb o boblogaeth y Deyrnas Unedig

<sup>5</sup> Ffocws Ystadegol ar Bobl Hŷn yng Nghymru 2008

<http://wales.gov.uk/topics/statistics/publications/focusoldpeople08/?skip=1&lang=cy>

iddynt:

- unrhyw un sy'n 16 oed ac yn hŷn sy'n dilyn rhaglen medrau sylfaenol a/neu SSIE DOG, yn cynnwys cyrsiau medrau sylfaenol a dinasyddiaeth yn eu cyddestun;
  - y rhai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar hyn o bryd ac sy'n derbyn budd-daliadau neu gymorth gan y wladwriaeth (ac eithrio pensiwn ymddeol y wladwriaeth); neu'r
  - rhai sy'n 50 oed ac yn hŷn ac nad ydynt mewn cyflogaeth amser llawn.
- 20 Mae'r datganiad polisi yn cydnabod cyfraniad dysgu oedolion yn y gymuned i les dysgwyr hŷn. Mae'n nodi bod DOG yn cyfrannu i gyflwyno nifer o bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru sy'n anelu at gryfhau a gwella adnoddau cymdeithasol cymunedau lleol. Yn ogystal â'r agenda economaidd, mae DOG yn effeithio ar gynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles, adfywio cymunedol, cael gwared ar dlodi plant a'r strategaeth ar gyfer pobl hŷn.
- 21 Yn y datganiad polisi, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn "cydnabod bod tystiolaeth feintiol gref sy'n dangos bod dysgu yn hwyrach mewn bywyd yn atgyfnerthu annibyniaeth pobl a'u gallu i ofalu amdanynt eu hunain, ac yn gallu arafu datblygiad dementia, gan ohirio'r angen am ofal preswyl drud. Mae dysgu yn hwyrach mewn bywyd yn rhan allweddol o Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'n helpu pobl i heneiddio'n weithredol, a gall gyfrannu at ddarparu gofal effeithiol ac ymestyn bywydau gwaith y rhai sy'n dymuno parhau i weithio."
- 22 Mae parhau i ddysgu medru newydd a chynnal gwybodaeth yn ffactor pwysig mewn cefnogi lles pobl hŷn. Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion (NIACE) ganfyddiadau o'r ymchwiliad i ddyfodol dysgu gydol oes<sup>6</sup> yn 2009. Mae adroddiad yr ymchwiliad yn amlygu'r angen i ddatblygu fframwaith ar gyfer dysgu pob oedran. Mae'n pwysleisio'r angen i raglenni addysgu adlewyrchu'r newid yng nghydbwysedd y boblogaeth. Mae'r adroddiad yn amlygu'r angen cynyddol am ddysgu ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r gwaith wrth i lawer o bobl fyw 20, 30 ac, mewn rhai achosion, 40 mlynedd y tu hwnt i'r oedran ymddeol.

---

<sup>6</sup> Learning through life: Inquiry into the Future of Lifelong Learning

## 1 Medrau ar gyfer cyflogaeth ac adfywio economaidd

- 23 Mae pob partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned (DOG)<sup>7</sup> wedi datblygu dulliau i gynorthwyo dysgwyr hŷn i ymarfer a datblygu medrau cyflogadwyedd. Er enghraifft, mae chwe phartneriaeth yn ne-ddwyrain Cymru wedi defnyddio cyllid Ewropeaidd yn dda i ddatblygu prosiect i gynorthwyo dysgwyr i fynd yn ôl i weithio. Mae'r rhaglen Pontydd i Waith<sup>8</sup> yn gweithio'n dda gyda rhai sy'n brin o hyder a phobl ddi-waith tymor hwy i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd. Mae'r chwe phartneriaeth yn cynorthwyo ei gilydd yn dda ac maent wedi recriwtio dros 13,000 o ddysgwyr DOG, y mae tuag 20% ohonynt dros 50 oed a dan 65 oed.
- 24 Mae pob partneriaeth yn cynnig ffyrdd i oedolion sy'n ddysgwyr gynyddu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Pan fo'r rhain yn fwyaf llwyddiannus, gall oedolion fanteisio ar sesiynau dysgu sy'n eu helpu i wella'r medrau hyn yn gyflym ynghyd â medrau eraill sy'n ymwneud â'u diddordebau, er enghraifft mewn technoleg gwybodaeth (TG) neu hanes teulu.
- 25 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig rhaglenni eraill, fel rhaglenni ReAct<sup>9</sup> a ProAct, sydd wedi ymestyn allan at bobl hŷn. Roedd canran sylweddol, sef 23%, o'r rhai a gymerodd ran yn y prosiect ProAct dros 50 oed. Ym mhrosiect ReAct, roedd tua 22% o'r rhai a gymerodd ran dros 50 oed. O ganlyniad i brosiect ReAct, enillodd 2,697 o ddysgwyr gymwysterau newydd. Roedd y mwyafrif o'r cymwysterau hyn yn Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQau) lefelau 2 a 3.
- 26 Fodd bynnag, nid yw rhaglenni ReAct a ProAct yn cynnwys partneriaethau DOG a defnyddio cysylltiadau uniongyrchol â chyflogwyr a gwasanaethau gyrfaedd i recriwtio oedolion sy'n ddysgwyr. O ganlyniad, mae'r rhaglenni hyn yn colli cyfleoedd i ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad partneriaethau DOG i ymestyn allan a chyflwyno dysgu i nifer ehangach o oedolion.
- 27 Yn ystod arolygiadau, mae Estyn wedi canfod, mewn lleiafrif o bartneriaethau DOG, nad oes digon o oedolion sy'n dysgu yn y gymuned yn defnyddio'r cyngor gyrfaedd annibynnol sydd ar gael gan Gyrfa Cymru. Dengys ffigurau gan Gyrfa Cymru fod oedolion sy'n ddysgwyr wedi'u tangynrychioli yn nifer y bobl sy'n defnyddio cyfarwyddyd gyrfaedd, ar y cyfan.<sup>10</sup> Dim ond 17% o'r rhai sy'n defnyddio sesiynau gwybodaeth a chyfarwyddyd Gyrfa Cymru sy'n 50 oed neu'n hŷn.
- 28 Mae cyfleoedd yn cael eu colli i 'gydgysylltu' gwasanaethau ar gyfer dysgwyr hŷn er mwyn cynnig y cyfle gorau iddynt barhau i ddysgu.

<sup>7</sup> Atodiad 4 Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned

<sup>8</sup> Mae Pontydd i Waith yn rhaglen a ariennir gan Ewrop sydd â'r nod o gynyddu cyflogadwyedd a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd.

<sup>9</sup> Mae rhaglen ReAct yn cynorthwyo gweithwyr sy'n wynebu dileu swydd i ennill medrau newydd ac mae Pro Act yn helpu cyflogwyr i gadw staff a gwella eu medrau.

<sup>10</sup> Atodiad 5 Dysgwyr hŷn a Gyrfa Cymru

## 2 Medrau ar gyfer lles

- 29 Mae'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru<sup>11</sup> yn tanlinellu rhan bwysig dysgu mewn helpu dysgwyr hŷn i fod yn annibynnol, gallu parhau i gyfranogi yn eu cymuned ac i gynnal eu lefelau lles. Mae cyfleoedd i gynnal medrau a chaffael medrau newydd ar gyfer lles yn bwysig mewn cymdeithas wâr. Fodd bynnag, nid yw'r Monitor Pobl Hŷn<sup>12</sup> yn ystyried effaith dysgu gydol oes ar bobl hŷn yn ddigon gofalus. Mae'n monitro mynediad at gyflogaeth yn unig ac nid yw'n ystyried mynediad at ddysgu mewn henaint.
- 30 Yn ystod y cyfnod hwyrach yn eu bywydau, mae pobl hŷn yn wynebu nifer o heriau. Y dyddiau hyn, mae aelodau teulu'n fwy tebygol o wasgaru ac nid yw pobl hŷn yn gallu dibynnu arnynt am anogaeth ddyddiol i gadw'n heini ac yn fywiog. Yn aml, daw eu symudedd cyffredinol yn gyfyngedig. Hefyd, mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol ac ni allant dalu i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Gall y ffactorau hyn olygu bod llawer o ddysgwyr hŷn yn colli'r hyder i adael eu cartrefi a'u bod yn dod yn fwyfwy arunig.
- 31 Mae angen i bobl hŷn allu fanteisio ar raglenni dysgu lleol a fydd yn eu paratoi ar gyfer yn hwyrach yn eu hoes. Mae angen cyfle arnynt i gynnal a datblygu eu medrau mewn cadw'n heini, atal neu ymdrin â phroblemau iechyd meddwl, cael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg a materion cyfredol, cadw'n ddiogel, gwirfoddoli ac, mewn rhai achosion, helpu wyrion ac wyresau i ddysgu.
- 32 Mae llawer o fanteision cymdeithasol ac economaidd i gynnal a datblygu'r medrau dysgu gydol oes hyn mewn pobl hŷn. Gall parhau i ddysgu a chadw ymennydd gweithredol arwain at lai o ymyriadau iechyd a diogelwch drud. Hefyd, gall parhau i ddysgu arwain at nifer gynyddol o bobl hŷn sy'n gallu aros yn annibynnol, yn hunanfodhaus a chyfrannu at eu cymunedau lleol am gyfnod hwy. Gall y trefniadau cyfredol ar gyfer dysgwyr hŷn, yn enwedig y rhai nad ydynt yn chwilio am waith mwyach, sy'n arunig neu'n agored i niwed, olygu nad yw'r dysgwyr hŷn hyn yn parhau i ddysgu wedi iddynt ymddeol ac wrth iddynt heneiddio.
- 33 Mae cyllid ar gyfer dysgu i oedolion wedi'i seilio ar ddeilliannau i ddysgwyr yn draddodiadol. Mae disgwyl i'r rhan fwyaf o ddysgwyr hŷn ennill gymhwyster neu dystysgrif gredyd pan fyddant yn ymrestru â darpariaeth DOG. Yn aml, mae wedi bod yn anodd i ddarparwyr drefnu bod y mathau o gyfleoedd dysgu sydd eu hangen ar ddysgwyr hŷn ar gael, pan fydd rhaid iddyn nhw a'r dysgwyr ganolbwyntio ar ennill cymwysterau nad oes eu hangen arnynt.
- 34 Er bod y mwyafrif o ddysgwyr hŷn yn gwerthfawrogi'r cyfle i dderbyn tystysgrifau ar gyfer cwblhau'r cyrsiau'n llwyddiannus, mae llawer o ddysgwyr hŷn yn cofio profiadau dysgu negyddol o'r gorffennol ac yn ystyried achredu'n rhwystyr rhag dysgu ac yn ddianghenraid, gan nad arnynt angen y cymwysterau hyn ac nid ydynt yn bwriadu eu defnyddio. Hyd yn hyn, nid yw darparwyr a chyllidwyr wedi datblygu dulliau effeithiol o gydnabod a mesur cynnydd mewn lles a medrau eraill y mae dysgwyr hŷn yn eu gwerthfawrogi.

<sup>11</sup> Atodiad 8 Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2008-2013

<sup>12</sup> Atodiad 6 Y Monitor Pobl Hŷn

<http://wales.gov.uk/topics/olderpeople/research/wellbeingmonitor2009/?cr=4&lang=cy&ts=3>

### 3 Profiad dysgwyr hŷn o ddysgu oedolion yn y gymuned

- 35 Adolygodd Estyn ddata sampl gan oddeutu 13,800 o ddysgwyr 50 oed a phedwar darparwr o bartneriaethau DOG gwahanol sy'n adlewyrchu'r dewisiadau dysgu ar gyfer dysgwyr hŷn dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2007 a 2010.
- 36 Mae tua 50% o ddysgwyr rhwng 50 a 65 oed yn defnyddio eu darpariaeth dysgu yn y gymuned leol i wella eu medrau cyflogadwyedd a'u gwybodaeth. Mae'r dysgwyr hyn yn dilyn cyrsiau mewn TG, medrau sylfaenol, Mynediad at Addysg Uwch, medrau busnes, a chyfathrebu.
- 37 Yn aml, bydd disgwyl i ddysgwyr hŷn gwblhau cymhwyster llawn oherwydd y cyllid y mae hyn yn ei ddenu i'r sefydliad sy'n cyflwyno'r cwrs, er nad oes angen hyn ar ddysgwyr, o reidrwydd. Yn aml, mae angen medrau ychwanegol a chyfredol arnynt, ond nid oes angen iddynt ddechrau o ddechrau'r cymhwyster. Pan fydd yn ofynnol iddynt astudio cwrs cyfan, yn aml bydd hyn yn golygu bod rhaid iddynt ailadrodd gwaith heb fod angen. Mae'r ailadrodd hwn yn golygu nad ydynt yn manteisio i'r eithaf ar y cyllid a'r amser. Ychydig iawn o sefydliadau sy'n achredu dysgu blaenorol.
- 38 O adolygu'r data<sup>13</sup>, mae'n amlwg bod llawer o ddysgwyr yn parhau i ddysgu hyd at 70 oed. Fodd bynnag, ar ôl 70 oed, mae ymrestriadau dysgwyr yn lleihau'n sylweddol. Mae'r grwpiau oedran 50-69 yn cynrychioli 67% o'r garfan. Fodd bynnag, mae rhai dros 70 oed yn cynrychioli 33% o ddysgwyr yn unig. Mae hyn yn peri pryder oherwydd ei bod yn arwain at gwestiynau ynghylch mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu. Mae'n debyg nad yw pob unigolyn hŷn yng Nghymru yn gallu manteisio ar ddysgu gydol oes yn unol â'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru.

| Canran            | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+  | Pob Oedran    |
|-------------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|------|---------------|
| Gwrywod           | 3.6%  | 3.2%  | 6.2%  | 6.2%  | 4.0%  | 3.7%  | 3.0%  | 0.3%  | 0.1% | 30.2%         |
| Benywod           | 10.8% | 11.1% | 12.8% | 12.8% | 12.5% | 7.0%  | 1.5%  | 1.1%  | 0.2% | 69.8%         |
| Cyfanswm y Garfan | 1,984 | 1,966 | 2,610 | 2,615 | 2,259 | 1,467 | 620   | 188   | 41   | <b>13,750</b> |

- 39 Ar hyn o bryd, mae llawer o gyfleoedd dysgu'n canolbwyntio ar ofynion dysgwyr iau a'u hangen am gymwysterau cychwynnol. Mae hyn yn golygu nad yw'r modd y caiff dysgu ei gyflwyno na'i arddull yn gweddu i anghenion dysgwyr hŷn bob tro. Er enghraifft, mae amseriad cyrsiau a'r ffaith nad yw dysgu blaenorol yn cael ei achredu yn golygu nad yw dysgwyr hŷn yn cyrraedd eu nodau dysgu'n gyflym nac yn effeithiol bob tro.
- 40 Gofynnodd Estyn i'r Cydlynnydd Pobl Hŷn<sup>14</sup> (CPH) ym mhob awdurdod lleol lenwi holiadur gan ddefnyddio eu gwybodaeth leol am bobl hŷn. Rhoddodd pob cydlynnydd ei barn a'u profiad o bobl hŷn o ran agweddau tuag at addysg a chyflwyno addysg i bobl hŷn yn eu hardal.

<sup>13</sup> Atodiad 7 Dadansoddiad o sampl o ymrestriadau dysgwyr DOG 2007-2010

<sup>14</sup> Mae gan ardal pob awdurdod lleol Gydlynnydd Pobl Hŷn

- 41 Llenwodd pob Cydlynnydd Pobl Hŷn holiadur ar gyfer yr adroddiad hwn a phrif nodweddion eu profiad o weithio gyda phobl hŷn yng Nghymru yw bod y rhan fwyaf o bobl hŷn yn dymuno parhau i ddysgu. Hefyd, maent yn adrodd bod pobl hŷn yn wynebu ystod o rwystrau rhag parhau i ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys:
- cost mynychu cyrsiau;
  - argaeledd cludiant;
  - pobl hŷn yn credu eu bod yn rhy hen i ddysgu;
  - diffyg uchelgais ar eu rhan gan weithwyr proffesiynol;
  - cyfrifoldebau teuluol yn effeithio ar gyfleoedd pobl hŷn;
  - dysgu wedi'i achredu yn creu rhwystr i lawer o bobl hŷn;
  - gwybod ble, sut a phryd y mae dysgu ar gael;
  - diffyg hyder; a
  - phroblemau/canfyddiadau pobl hŷn yn ymwneud â'u golwg bersonol neu eu ffitrwydd presennol er mwyn gallu cymryd rhan mewn ymarfer corff.
- 42 Mae'r Cydlynwyr Pobl Hŷn hefyd yn disgrifio'r rhaglenni a ddatblygwyd ar gyfer dysgwyr hŷn yn eu hardaloedd.<sup>15</sup> Mewn llawer o bartneriaethau DOG, mae enghreifftiau o grwpiau pobl hŷn yn cael eu hannog i fod yn hunangynhaliol. Mae hyn wedi digwydd mewn celf a chreffft, gweithgareddau creadigol eraill a hanes lleol yn bennaf. Er enghraifft: mae grŵp o wyth o ddysgwyr benywaidd, pob un ohonynt dros 65 oed sy'n cymryd rhan mewn sesiynau crefft a barddoniaeth, wedi ffurfio clwb mewn un canolfan ddysgu gymunedol leol. Mae'r enghraifft hon o hunangynhaliaeth yn ffordd i annog cyfranogiad a hunangyflawniad, cyn belled â bod gan y dysgwyr y medrau i gynnal y clwb.
- 43 Mae amlder cysylltiad y Cydlynwyr Pobl Hŷn â phartneriaethau DOG ledled Cymru yn amrywio. Mae rhai ohonynt yn cysylltu'n rheolaidd, ond nid oes gan eraill gysylltiad rheolaidd neu unrhyw gysylltiad o gwbl.
- 44 Nid oes gan Gydlynwyr Pobl Hŷn ddulliau o hyrwyddo ystod o ddewisiadau dysgu ar gyfer pobl hŷn bob tro ac, er bod rhai prosiectau'n cael eu hariannu, mae llawer ohonynt yn rhai byrdymor neu nid ydynt yn cael eu cydlynu'n dda. Un enghraifft yw'r rhaglen Clic a hysbysebwyd gan y BBC, a oedd yn annog pobl hŷn i ddefnyddio mwy o'r rhyngwyd a TGCh. Nid oedd mor llwyddiannus ag y gallai fod oherwydd nid oedd pob partneriaeth DOG yn ymwybodol o'i amseriad ac felly nid oeddent yn gallu cynllunio'n dda i gynorthwyo'r dysgwyr hŷn hyn i barhau i ymarfer a magu hyder yn y medrau y maent wedi'u dysgu'n barod.
- 45 Cynhaliodd Estyn nifer o gyfweiliadau gyda dysgwyr hŷn sy'n cymryd rhan mewn sesiynau dysgu oedolion yn y gymuned ar hyn o bryd mewn pum partneriaeth DOG ledled Cymru. Holodd Estyn ddysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Gwynedd ac Ynys Môn ynghylch eu profiad o ddysgu yn eu cymunedau lleol. Gofynnwyd i bob un o'r dysgwyr hŷn siarad am ddeilliannau llwyddiannus eu profiad dysgu. Roedd pob un o'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu medrau newydd a chynyddu eu gwybodaeth.
- 46 Roedd y profiadau dysgu hyn yn cynnwys rhai a ddarparwyd gan y partneriaethau DOG a rhai a ddatblygwyd gan y Cydlynwyr Pobl Hŷn. Yn yr arolwg, roedd gennym

---

<sup>15</sup> Gweler Atodiad 10 Crynodeb o ymatebion Cydlynwyr Pobl Hŷn

ddiddordeb mewn gwybod beth mae dysgwyr hŷn yn credu yw'r prif ddeilliannau o'u profiad dysgu, nid yn unig o ran y maes cwricwlwm a astudiwyd, ond hefyd y gwerthoedd sy'n cael eu hamlygu yn egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, sef:

- annibyniaeth;
- cyfranogiad;
- gofal;
- hunangyflawniad; ac
- urddas.

- 47 Hefyd, cyfwelodd Estyn â thua 125 o ddysgwyr hŷn ynghylch eu hasesiad eu hunain o'r manteision yr oeddent wedi'u hennill trwy ddysgu. Gofynnem i ddysgwyr amlygu eu ffactorau llwyddiant eu hunain o'u profiadau dysgu.

| <b>Hunanasesiad dysgwyr hŷn o ddeiliant eu profiad dysgu</b>                           |      |
|--|------|
| gwella eu cysylltiadau cymdeithasol  | 100% |
| gwella manteision iechyd trwy fynychu sesiynau   | 94%  |
| gwella eu hyder a'u hunan-barch  | 77%  |
| gwella eu hymgysylltiad â'r gymuned a gwirfoddoli                                      | 57%  |
| gwella medrau ar gyfer yr 21ain ganrif (e.e. cyfrifiadura, defnyddio technoleg newydd) | 47%  |

- 48 Mae dysgwyr dros 70 oed yn mynegi mwy o fanteision o ran hunanhyder a hunan-barch a manteision iechyd gwell na rhai 50-70 oed. Mae dysgwyr dros 70 oed yn llai tebygol o lawer o restru manteision sy'n gwella eu medrau ar gyfer yr 21ain ganrif neu wella eu hymgysylltiad â'r gymuned a gwirfoddoli.
- 49 Mae pob un o'r dysgwyr yn sôn am bwysigrwydd cyfarfod â phobl eraill. Mewn llawer o ddisbarthiadau, mae dysgwyr yn gwneud ffrindiau trwy'r dosbarthiadau hefyd. Mae llawer o aelodau newydd o ddisbarthiadau'n crybwyll eu bod yn cael croeso cynnes ac yn edrych ymlaen at fynychu. Mae pob un ohonynt yn sôn am y cymorth emosiynol y maent yn ei roi i'w gilydd. Mae llawer ohonynt yn annog ffrindiau i ymuno oherwydd eu profiadau eu hunain.
- 50 Mae bron pob un o'r dysgwyr yn sôn am fanteision iechyd. Mae un dysgwr sydd am oresgyn problem iechyd meddwl wedi ymuno yn dilyn cyngor gan weithiwr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae pedwar o'r dysgwyr wedi dioddef strôc a dywedant fod y dosbarthiadau wedi'u helpu i wella oherwydd y symbyliad meddyliol a'r cyfle i adennill hyder. Dywed pob aelod o un dosbarth bod y gwaith yn helpu i gadw eu cymalau'n ystwyth.
- 51 Mae'r astudiaethau achos canlynol yn amlinellu'r nifer o fannau cychwyn gwahanol ar gyfer dysgwyr hŷn a'r amrywiaeth o fanteision dysgu y mae pobl hŷn yn eu cael o'u profiadau dysgu. Mae'r deilliannau'n amlygu mwy o gynhwysiant cymdeithasol, manteision iechyd a lles i'r dysgwyr hŷn, yn ogystal â datblygu medrau cyflogaeth.

### **Gwella defnydd medrau'r 21ain ganrif ar gyfer cyflogaeth**

Mae **Dysgwr A** yn gweld yn rhannol ac mae wedi'i gofrestru'n anabl. Mae'n aelod brwd o'r grŵp cerdded sy'n cael ei drefnu yn y ganolfan leol ac, ar hyn o bryd, mae'n paratoi i gael ei achredu'n arweinydd teithiau cerdded. Hefyd, mae'n gwneud 'coginio i ddynion' a TG. Mae elusen sy'n cynorthwyo cyn-filwyr wedi darparu meddalwedd TG wedi'i haddasu'n arbennig ar ei gyfer. Oherwydd hyn ac â chymorth y Ganolfan Byd Gwaith leol, mae dysgwr A wedi ymrestru ar gwrs dylunio gwefannau ac mae'n awyddus i ddychwelyd i fyd gwaith.

Hefyd, mae Dysgwr A yn cyfranogi'n frwd mewn cystadlaethau saethu ar gyfer pobl sy'n gweld yn rhannol ac mae'n cystadlu'n rheolaidd. Mae'n ystyried pob un o'i weithgareddau'n feddyginiaeth ataliol. Nid yw'n ystyried ei anabledd yn rhwystr, ac mae cymorth gan y rhaglen ddysgu leol yn ei helpu i ddatblygu ei fedrau a pharhau i gyfrannu at y gymdeithas.

### **Gwella hunan-barch a hyder**

Mae gan **Ddysgwr B** dementia. Bu'n gerddor brwd ac yn ddewin amator. Pan gafodd ddiagnosis, fe wnaeth roi'r gorau i lawer o'r gweithgareddau yr oedd yn eu mwynhau oherwydd ei fod yn cael trafferth canolbwytio a chofio gwybodaeth. Mae wedi ymuno â grŵp dysgu ac wedi dechrau defnyddio gêm ffitrwydd TG i'w helpu i wneud ymarfer corff a ffocysu ei feddwl. Mae hyn wedi bod yn hynod effeithiol ac, ar ôl trafod gyda'r seiciatrydd, mae wedi dechrau ymarfer ei hud ac wedi dechrau

chwarae'r gitâr eto. Mae'n gwneud llawer o waith gwirfoddol, gan berfformio ei hud ar gyfer elusennau plant ac yn chwarae mewn grŵp ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Mae'r gallu hwn i roi rhywbeth i bobl eraill yn bwysig iawn i Ddysgwr B. Mae'n teimlo ei fod yn aelod defnyddiol o'r gymdeithas o hyd ac mae'n mwynhau cwmni pobl eraill. Mae'n rhoi ymdeimlad mawr o gyflawniad iddo. Mae'n credu po fwyaf y mae'n ei wneud, y gwell mae'n teimlo, ac mae'n cael 'hwb' o wneud pethau i bobl eraill.

### **Iechyd gwell**

Mae **Dysgwr C** yn dioddef iselder. I ddechrau, cafodd ei hannog i ymuno â dosbarthiadau gan ei gŵr, a oedd yn poeni ei bod prin yn gadael y tŷ a bod ei hiechyd yn gwaethygu. Ers ymuno â'i dosbarth cyntaf, mae wedi dysgu nifer o grefftau ac, erbyn hyn, nid yn unig y mae'n mynychu dosbarthiadau wedi'u trefnu, mae hefyd yn mynychu rhai grwpiau anffurfiol.

Mae Dysgwr C yn cael trafferth gadael y tŷ o hyd, ond mae'n sylweddoli bod y gweithgareddau hyn yn hanfodol ar gyfer ei hiechyd meddwl. Mae'n mwynhau dysgu pethau newydd ac yn gwerthfawrogi'r cyswllt cymdeithasol a'r gwrthdynciad sy'n cael ei ddarparu. Mae Dysgwr C yn siŵr na fyddai'n gallu ymdopi pe na fyddai wedi dechrau mynychu'r dosbarthiadau. Dywed eu bod "wedi ei chadw hi'n fyw".

## Ymgysylltiad gwell â'r gymuned a gwirfoddoli

### Dysgwr Ch a Dysgwr D

Ar ôl ymddeol pum mlynedd yn ôl, symudodd Dysgwyr Ch a D i ogledd Cymru o dde Lloegr. Roedd eu hunig wybodaeth am yr ardal wedi'i seilio ar wyliau. Gwnaethant ddechrau mynychu eu canolfan ddysgu leol i bobl hŷn ar ôl i un o'u cymdogion argymhell eu bod yn "ymweld â hi". Mae'r ddau ddysgwr wedi cwblhau cyrsiau yn y ganolfan yn llwyddiannus. Ei gwerth gwirioneddol iddynt yw'r ymgysylltiad cymunedol â'r gwaith gwirfoddol y maent yn ymgymryd ag ef o ganlyniad. Mae Dysgwr Ch yn atgyweiriwr cyffredinol ac yn 'Mr Trwsio' ar gyfer y ganolfan. Mae Dysgwr D yn un o aelodau'r pwyllgor sy'n ymgymryd â gwaith gweinyddol a gwirfoddol yn y ganolfan yn rheolaidd. Maent yn falch iawn o lwyddiant y ganolfan ac, erbyn hyn, mae ganddynt nifer fawr o ffrindiau. Mae Dysgwr D yn haeru bod ei hymgysylltiad â'r ganolfan yn ei chadw'n iach. Mae eu gwaith yn cymryd llawer o amser ond maent yn mwynhau pob eiliad ohono.

### Cysylltiad cymdeithasol gwell

Symudodd **Dysgwr Dd** i dde Cymru o Lundain bedair blynedd yn ôl. Mae'n wraig weddi ac nid oedd yn adnabod unrhyw un yn yr ardal. Un diwrnod, gwelodd ddosbarth arlunio yn y parc a phenderfynodd ddarganfod pa gyfleoedd dysgu oedd ar gael. Ers hynny, mae wedi cymryd rhan mewn ystod eang o ddosbarthiadau gan gynnwys arlunio, ioga a gwaith coed ar hyn o bryd. Mae'n frwd o blaid dysgu

oedolion yn y gymuned. Bellach, mae ganddi lawer o ffrindiau ac mae'n dysgu medrau newydd, diddorol a defnyddio a mwy o annibyniaeth. Dywed Dysgwr Dd bod y dosbarthiadau'n ei herio i wneud pethau na fyddai erioed wedi breuddwydio y byddai'n gallu eu gwneud a'u bod wedi ei galluogi i ymgartrefu mewn bywyd newydd hapus iawn yn ne Cymru.

## 4 Dewisiadau cwricwlwm dysgwyr hŷn

- 52 Mae'r adran hon yn dadansoddi hoff ddewisiadau dysgwyr hŷn ar gyfer ymrestru. Mae dewisiadau'n dibynnu ar y cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan ddarparwyr partneriaethau lleol. Yn aml, caiff dewisiadau eu cyfyngu gan yr hyn fu ar gael yn hanesyddol, argaeledd tiwtoriaid hysbys ac argaeledd cyllid.

### Llythrennedd a dysgu arall sy'n ymwneud â chyflogaeth

- 53 Yn gyffredinol, dysgwyr rhwng 50 a 64 oed sy'n dymuno gwella eu medrau cyflogadwyedd sy'n defnyddio dosbarthiadau llythrennedd fwyaf. Fodd bynnag, mae'n well gan lawer o oedolion sy'n ddysgwyr ymrestru ar gyrsiau dysgu cyd-destunol, lle maent yn ychwanegu at eu medrau llythrennedd ochr yn ochr â phwnc sydd o ddi-ddordeb iddynt. Yn aml, mae llawer o gyrsiau sy'n ymwneud â medrau cyflogaeth yn cynnwys medrau llythrennedd cyd-destunol yn eu cynnwys. Mae ychydig o ddysgwyr hŷn sy'n neiniau ac yn deidiau yn defnyddio sesiynau dysgu fel teulu i ddysgu sut i helpu eu hwyrion a'u hwyresau gyda'u gwaith cartref.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau yn ymwneud â llythrennedd yn 2007-10

|         | Maes Pwnc    | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|--------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Llythrennedd | 76    | 32    | 29    | 38    | 13    | 16    | 13    | 0     | 0   | 217        |
| Benywod | Llythrennedd | 180   | 157   | 96    | 66    | 44    | 21    | 0     | 1     | 0   | 565        |

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys pob sesiwn Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO) a dysgu fel teulu.

### Dysgu arall yn ymwneud â chyflogaeth

- 54 Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys astudiaethau busnes, adeiladu, cwnsela, medrau manwerthu, iaith arwyddion, cyrsiau Mynediad at Addysg Uwch (AU), medrau tiwtora, arlwyo a medrau gofal plant. Mae'r cyrsiau'n amrywio o ran eu hyd a lefelau cymwysterau. Mae llawer o gyrsiau'n helpu dysgwyr hŷn i gael gwybod am ddewisiadau cyflogaeth a chanfod mwy am eu dewisiadau eu hunain. Mae hyn yn golygu bod y dysgwyr hyn yn canfod ffyrdd i adolygu eu dewisiadau galwedigaethol neu ailymuno â'r farchnad waith yn gwybod mwy am eu medrau a'u dewisiadau eu hunain.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau yn ymwneud â chyflogaeth yn 2007-10

|         | Maes Pwnc                | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|--------------------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Yn ymwneud â chyflogaeth | 100   | 63    | 96    | 100   | 65    | 51    | 149   | 5     | 4   | 633        |
| Benywod | Yn ymwneud â chyflogaeth | 230   | 235   | 251   | 318   | 452   | 273   | 25    | 36    | 8   | 1,828      |

### Technoleg gwybodaeth

- 55 Mae'r cyrsiau hyn ymhlith y rhai mwyaf poblogaidd ymysg pobl hŷn. Mae tua 30% o'r holl ddysgwyr dros 50 oed yn dilyn cyrsiau mewn TG. Gall y cyrsiau a'r sesiynau hyn fod yn gyrsiau byr, sy'n aml yn para tuag 20 awr mewn un agwedd ar TG, neu

gyrsiau hwy sy'n arwain at gymwysterau. Mewn rhai achosion, gall dysgwyr hŷn fanteisio ar ddarpariaeth gweithdai lle gallant ddiweddarau eu medrau mewn medr TG penodol, fel siopa ar y rhyngwrwyd, ond nid yw'r math hwn o ddarpariaeth ar gael bob tro. Mae llawer o ddysgwyr rhwng 50 a 69 oed yn defnyddio'r cyrsiau hyn i ychwanegu at eu medrau cyflogadwyedd. Hefyd, mae'r rhan fwyaf o bobl hŷn dros 70 oed yn sylweddoli pwysigrwydd deall sut i ddefnyddio TG, ac mae'r rhai sy'n ymuno â chyrsgiau'n gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu'n agos at ble maent yn byw. Mae'r cyrsiau hyn yn helpu pobl hŷn i ddysgu am Skype ac e-bost, sy'n eu helpu i gadw mewn cysylltiad ag aelodau'r teulu nad ydynt yn byw'n agos atynt mwyach. Lle mae'r sesiynau hyn ar gael, mae dysgwyr hŷn yn defnyddio'r medrau maent yn eu dysgu'n dda i ddefnyddio'r rhyngwrwyd a chael gwybodaeth gyfredol, er enghraifft am sut i archebu nwyddau ar-lein a sut i ddod o hyd i ffynonellau o gymorth ariannol a phensiynau.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau TG yn 2007-10

|         | Maes Pwnc | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | TG        | 103   | 127   | 245   | 315   | 242   | 245   | 157   | 20    | 2   | 1,456      |
| Benywod | TG        | 315   | 325   | 446   | 527   | 563   | 323   | 64    | 34    | 8   | 2,605      |

### leithoedd

- 56 Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys yr holl ddysgwyr Cymraeg, ond maent yn canolbwyntio ar ieithoedd tramor modern. Mae llawer o ddysgwyr hŷn yn achub ar y cyfle i ddal i fyny â dysgu y gwnaethant ei fethu yn yr ysgol. Ffrangeg, Sbaeneg ac Almaeneg yw'r ieithoedd mwyaf poblogaidd. Mae ymchwil yn dangos bod dysgu iaith newydd yn helpu pobl hŷn i osgoi deilliannau gwaethaf clefyd Alzheimer.<sup>16</sup>

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau iaith yn 2007-10

|         | Maes Pwnc | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | ieithoedd | 68    | 87    | 163   | 173   | 106   | 63    | 33    | 4     | 1   | 698        |
| Benywod | ieithoedd | 284   | 217   | 230   | 188   | 128   | 52    | 5     | 17    | 2   | 1,123      |

### Datblygiad personol

- 57 Ar y cyrsiau hyn, mae dysgwyr hŷn yn magu hyder a medrau cyfathrebu. Gall y sesiynau hyn helpu cyflogadwyedd a medrau byw'n annibynnol, fel ei gilydd, ac maent yn galluogi dysgwyr hŷn i ddilyn diddordebau personol. Mae'r dysgwyr yn cynrychioli 4% o'r sampl hon o ddysgwyr yn unig. Gan amlaf, mae'r medrau byw'n annibynnol sy'n cael eu cynnig i rai dysgwyr ar gael i'r dysgwyr hynny sydd wedi bod â rhyw fath o anabledd corfforol neu feddyliol ar hyd eu hoes. Hefyd, mae medrau byw'n annibynnol yn helpu dysgwyr hŷn eraill i osgoi colli'r gallu i fod yn annibynnol. Mae'r sesiynau hyn yn adeiladu ffyrdd i ddysgwyr barhau i gyfranogi ac yn helpu i ddod â hunangyflawniad ac urddas.

<sup>16</sup> Ellen Bialystok, Prifysgol York, Toronto i Gymdeithas Datblygu Gwyddoniaeth America, Chwefror 2011.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau datblygiad personol yn 2007-10

|         | Maes Pwnc           | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|---------------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Datblygiad personol | 61    | 23    | 46    | 25    | 5     | 9     | 15    | 0     | 0   | 184        |
| Benywod | Datblygiad personol | 83    | 70    | 60    | 50    | 39    | 29    | 10    | 9     | 1   | 351        |

### Bwyd a maeth

- 58 Nid yw'r cyrsiau hyn ar gael i ddysgwyr hŷn bob tro. Mae cynnal diddordeb a brwdfrydedd am goginio prydau gartref, yn enwedig pan fo llawer o bobl hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain, yn ffactor pwysig i bobl hŷn sy'n ceisio cynnal eu lles. Mae nifer gynyddol o ddynion hŷn yn defnyddio'r dosbarthiadau hyn i wella eu medrau coginio wedi iddynt ddod yn wŷr gweddw.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau bwyd a maeth yn 2007-10

|         | Maes Pwnc    | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|--------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Bwyd a Maeth | 15    | 13    | 23    | 34    | 16    | 13    | 6     | 0     | 0   | 120        |
| Benywod | Bwyd a Maeth | 75    | 49    | 62    | 45    | 49    | 38    | 11    | 5     | 3   | 337        |

### Cerddoriaeth

- 59 Nid oes digon o oedolion sy'n ddysgwyr yn gallu manteisio ar gyrsiau cerddoriaeth. Mae cerddoriaeth a dysgu sut i chwarae offeryn yn helpu llawer o ddysgwyr hŷn i barhau i gyfrannu at eu cymunedau. Nid yw'n anghyffredin i ddysgwyr hŷn y mae eu hanes cyflogaeth yn canolbwyntio ar fedrau mwy gwyddonol, fel peirianeg neu feddygaeth, ddod yn ôl i ddysgu sut i ganu a chwarae cerddoriaeth. Mae hyn yn helpu'r oedolion hyn sy'n ddysgwyr i gyfathrebu â phobl eraill ac, yn aml, bydd y dysgwyr hyn yn cynnwys eu hunain mewn gweithgareddau cymunedol i ddarparu cyfeiliant i ddigwyddiadau elusennol neu ymweld â phobl hŷn eraill sydd ar eu pennau eu hunain yn eu cartrefi.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau cerddoriaeth yn 2007-10

|         | Maes Pwnc    | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|--------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Cerddoriaeth | 24    | 29    | 40    | 47    | 38    | 19    | 9     | 1     | 0   | 207        |
| Benywod | Cerddoriaeth | 22    | 28    | 36    | 39    | 49    | 23    | 5     | 3     | 0   | 205        |

### Cadw'n iach

- 60 Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn cynnig dosbarthiadau ffitrwydd yn ymwneud ag iechyd, ond ychydig iawn o ddysgwyr sy'n ymgymryd â'r dewisiadau hyn. Mae dosbarthiadau'n cynnwys therapïau amgen, technegau ymlacio, Tai Chi ac loga. Nid oes digon o ddosbarthiadau 'ymarfer corff ysgafn' cyffredinol i ddysgwyr hŷn. Ychydig iawn o ddysgwyr gwrywaidd sy'n ymgymryd â'r dewisiadau hyn sy'n ymwneud ag iechyd. Nid yw'r ddarpariaeth i annog dysgwyr hŷn i gadw'n iach ac yn heini wedi'i chydlynu ar draws cyfleusterau cymunedol lleol ac nid yw darparwyr yn cydgynllunio'n dda nac yn hysbysebu er mwyn annog pobl hŷn i ymuno. Yn aml, nid yw dysgwyr hŷn yn cael gwybodaeth glir am ble y gallant ymuno â sesiynau a fydd yn

eu helpu i gadw'n heini. Hefyd, mae Cydlynwyr Pobl Hŷn yn adrodd bod diffyg hyder i ymuno â dosbarthiadau bywiog yn aml yn rhwystr rhag cyfranogiad.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau iechyd a ffitrwydd yn 2007-10

|         | Maes Pwnc | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Iechyd    | 2     | 10    | 6     | 3     | 6     | 9     | 3     | 2     | 0   | 41         |
| Benywod | Iechyd    | 65    | 70    | 60    | 50    | 39    | 29    | 10    | 9     | 1   | 333        |

### Hanes

- 61 Y maes dysgu hwn sydd â'r gyfradd gyfranogi isaf, sef llai nag 1%. Fodd bynnag, mae gwaith atgofio gyda dysgwyr hŷn yn ffordd rymus i sicrhau bod dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr llawer hŷn yn parhau i gyfrannu a chael eu cynnwys mewn gweithgareddau cymunedol. Yn aml, mae'r maes dysgu hwn yn hynod lwyddiannus ac yn galluogi dysgwyr llawer iau ac aelodau iau o'r gymuned i ddeall eu hanesion eu hunain a'r rhan y gwnaeth perthnasau hŷn ac aelodau hŷn o'r gymuned ei chwarae mewn digwyddiadau. Lle caiff y sesiynau hyn eu cynnal yn dda, maent yn helpu cydlyniad cymunedol trwy ddod â'r cenhedloedd hŷn ac iau at ei gilydd.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau hanes yn 2007-10

|         | Maes Pwnc | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Hanes     | 5     | 2     | 8     | 14    | 4     | 10    | 2     | 1     | 0   | 46         |
| Benywod | Hanes     | 12    | 24    | 33    | 23    | 16    | 10    | 2     | 0     | 1   | 121        |

### Celf a chrefft

- 62 Mae'r cyrsiau hyn yn cynnwys celfyddyd gain, ffotograffiaeth, crochenwaith, gwneud cardiau, crefft nodwydd a gwaith gwydr lliw.
- 63 Mae mwy o ddysgwyr benywaidd na dysgwyr gwrywaidd yn dilyn cyrsiau mewn celf a chrefft. Mae mwy o ddysgwyr hŷn dros 60 oed yn dilyn y cyrsiau hyn. Mae'r cyrsiau hyn yn galluogi dysgwyr hŷn i ymarfer medrusrwydd corfforol a chadw cydsymudiad rhwng y llygaid a'r dwylo. Gall lleiafrif o ddysgwyr fod yn gwella yn dilyn strôc ac maent yn crybwyll bod y sesiynau hyn yn eu cynorthwyo'n dda i wella.
- 64 Yn fwyfwy mewn celf a chrefft, mae dysgwyr hŷn yn cyfuno gwaith creadigol â defnyddio TG. Mae ffotograffiaeth ddigidol yn enghraifft dda o ble caiff celf a medrau cyfrifiadurol eu cyfuno'n llwyddiannus i helpu dysgwyr hŷn i gofnodi digwyddiadau cymunedol a theuluol, i wybod sut i lwytho ffotograffau i'w cyfrifiaduron eu hunain a'u cynnwys ar wefannau cymunedol, neu eu hanfon at ffrindiau a theulu mewn negeseuon e-bost neu drwy wefannau eraill.

### Nifer y bobl yn yr ystod oedran 50+ a ymrestrodd ar gyrsiau celf a chrefft yn 2007-10

|         | Maes Pwnc      | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|----------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Celf a chrefft | 42    | 52    | 192   | 102   | 49    | 75    | 31    | 7     | 0   | 550        |
| Benywod | Celf a chrefft | 222   | 353   | 488   | 458   | 336   | 159   | 70    | 34    | 10  | 2,130      |

## 5 Partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned a chynllunio ar gyfer dysgu cymunedol

- 65 Mae gan bob partneriaeth DOG naill ai awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach yn bartner arweiniol iddi. Fel arfer, mae'r partneriaethau hefyd yn cynnwys ysgol Gymraeg y rhanbarth, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG De Cymru)/CAG (G) Coleg Harlech a chyngor gwirfoddol lleol y sir. Ym mis Awst 2010, gofynnodd AdAS i bob partneriaeth DOG gyflwyno cynlluniau partneriaeth strategol.
- 66 Mae dadansoddiad o'r cynlluniau hyn yn dangos bod pob partneriaeth yn ystyried y prif flaenoriaethau y gofynnodd AdAS iddynt eu hystyried. Mae'r blaenoriaethau fel a ganlyn:
- ymestyn cyfranogiad ymhlith grwpiau difreintiedig neu sydd wedi'u tangynrychioli;
  - anweithgarwch economaidd;
  - Medrau Sylfaenol a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill;
  - Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang; a
  - dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.
- 67 Mae'r enghraifft hon gan bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Gwynedd ac Ynys Môn yn dangos yr ystod o bolisiau y maent yn eu hystyried pan fyddant yn datblygu eu rhaglen dysgu oedolion yn y gymuned.

### Cynllun strategol Partneriaeth DOG Gwynedd ac Ynys Môn

#### Mae'r cyd-destun polisi ar gyfer cynlluniau'r bartneriaeth yn cynnwys:

##### Cenedlaethol

- Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol AdAS;
- llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru i'r Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant;
- Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgu dwyieithog;
- Y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol – Geiriau'n Galw, Rhifau'n Cyfri;
- adroddiad Webb; a
- meini prawf AdAS ar gyfer y Partneriaethau Dysgu Oedolion a'r Gymuned newydd.

##### Rhanbarthol

Y Datganiad Rhanbarthol o Anghenion a Blaenoriaethau, yn benodol:

- cynyddu cyfranogiad mewn dysgu ymhlith rhai sy'n economaidd anweithgar;
- ymgorffori medrau cyffredinol ac allweddol mewn dysgu;
- ymgorffori 'Ymagwedd Strategol Gogledd Cymru tuag at Fedrau Sylfaenol';
- datblygu dull strategol o ddefnyddio e-ddysgu;

- cynyddu darpariaeth addysg a hyfforddiant Cymraeg/dwyieithog;
- Fforwm Economaidd Gogledd Cymru – Strategaeth Ddatblygu Gogledd Cymru;
- hyfforddiant ar gyfer darpariaeth lefel mynediad;
- datblygu e-ddysgu a chymorth hyfforddi ar gyfer grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd; a
- Strategaeth Medrau Sylfaenol Gogledd Cymru.

### Lleol

- Argymhellion blynyddol y bartneriaeth leol ar gyfer dysgu, yn benodol gweithgareddau sy'n ymwneud â/ag:
  - Medrau Sylfaenol;
  - gweithgarwch economaidd;
  - e-ddysgu; a
  - dwyieithrwydd;
- Strategaethau Cymunedau Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn; a
- Strategaeth Pobl Hŷn Gwynedd ac Ynys Môn.

- 68 Fodd bynnag, nid oes digon o bartneriaethau DOG yn ystyried anghenion dysgwyr hŷn yn eu cynlluniau. Lleiafrif yn unig o'r cynlluniau partneriaeth strategol gan y partneriaethau sy'n weddill sy'n enwi'r Cydlynnydd Pobl Hŷn neu'r Strategaeth Pobl Hŷn fel dylanwad ar ddatblygu eu cynlluniau.
- 69 Fodd bynnag, mae nifer o brosiectau ymarferol lle mae partneriaethau DOG yn cefnogi anghenion pobl hŷn. Caiff enghreifftiau o hyn eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae'r partneriaethau hyn yn ymuno ag adrannau ac asiantaethau eraill mewn ardaloedd lleol i gynllunio'n gyfannol ar gyfer anghenion dysgwyr hŷn ac adlewyrchu hyn yng nghynlluniau'r bartneriaeth.
- 70 Mae dwy bartneriaeth arall yn sôn am ddysgu rhyng-genhedlaeth ac ailsgilio dysgwyr hŷn yn eu cynlluniau. Fodd bynnag, o gymharu â'r gwaith hwn gyda dysgwyr 50 oed neu'n hŷn, mae'r mwyafrif o bartneriaethau DOG yn dangos mwy o bwyslais ar waith gyda dysgwyr 14-19 oed.
- 71 Er bod llawer o'r gwaith da sy'n cael ei gyflwyno gan bartneriaethau DOG yn cynorthwyo pobl iau i ddysgu mewn lleoliadau anffurfiol a chymunedol yn llwyddiannus, mae'r pwyslais mwy ar ddysgwyr iau yng nghynlluniau'r partneriaethau yn aml yn gadael bwlch yn y cynlluniau a'r ymateb i anghenion dysgwyr hŷn. Nid yw pob partneriaeth yn defnyddio ei phrofiad a'i harbenigedd yn dda i ymateb i anghenion dysgwyr hŷn, yn enwedig y dysgwyr hynny sydd wedi ymddeol ac sydd angen cyfleoedd dysgu sy'n hyrwyddo eu cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles a chyfranogiad gweithredol yn eu cymunedau.
- 72 Yn aml, caiff rhaglenni eu cynllunio ar eu pennau eu hunain fel nad yw rhaglenni addysg sy'n cael eu cyflwyno trwy'r gwasanaeth iechyd ac adrannau hamdden, er enghraifft, yn cysylltu'n dda â'i gilydd. Yn aml, nid yw medrau gwirfoddoli, rhaglenni ymarfer corff a sesiynau TG byr sy'n hawdd eu deall ac sy'n targedu medrau penodol, fel siopa ar y rhynggrwyd, cael gwybodaeth a defnyddio Skype, wedi'u cysylltu â'i gilydd i recriwtio pobl hŷn. Gall hyn olygu nad yw llawer o ddysgwyr hŷn yn parhau i ddysgu ar ôl iddynt ymddeol ac wrth iddynt heneiddio.

## 6 Dysgu oedolion yn y gymuned a Llywodraeth Cymru

- 73 Mae'r polisi cyflenwi dysgu cymunedol yn cydnabod rôl DOG mewn cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru. Mae'r polisi'n cydnabod bod angen atgyfnerthu cydweithio gwell, dilyniant gwell a safonau cyflenwi uchel trwy ddefnyddio dull mwy cysylltiedig at fentrau polisi o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r polisi yn gofyn i AdAS gydweithio o fewn Llywodraeth Cymru i 'gysylltu' mentrau polisi.
- 74 Fodd bynnag, nid yw'r datganiad polisi yn amlinellu'r modd y gall partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ac AdAS gydweithio ag adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ystyried anghenion pobl hŷn, er enghraifft:
- **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** gyda chysylltiadau ag iechyd a gofal cymdeithasol; darparu gwasanaethau i bobl ag afiechyd meddwl yng Nghymru a chyflwyno'r GIG;
  - **Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol** cydraddoldeb a chyfle cyfartal, cynllunio strategol gan awdurdodau lleol; a
  - **Busnes a'r Gyllideb** cyfeiriad cyllidol strategol; defnyddio cyllideb LIC yn fwyaf effeithiol; gwerth am arian a gwariant effeithiol ar draws y Cynulliad; a chynllunio strategol a chorfforaethol o fewn Llywodraeth Cymru.
- 75 Mae pob un o'r adrannau hyn yn gyfrifol am ddarparu cymorth a gwasanaethau i bobl hŷn. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae diffyg dealltwriaeth ar draws yr adrannau hyn o sut gall dysgu oedolion yn y gymuned annog a chynorthwyo pobl hŷn i gadw'n weithgar a chyfranogi ym mywyd y gymuned. Ni chaiff atebion effeithiol i gynorthwyo pobl hŷn i gyfranogi'n weithredol eu datblygu rhwng AdAS ac adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar lefel strategol. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu nad yw partneriaethau DOG yn dilyn egwyddorion y Strategaeth Pobl Hŷn ar lefel weithredol nac yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion dysgwyr hŷn.

## **Atodiad 1: Prosiectau sy'n cefnogi anghenion pobl hŷn**

### **Partneriaeth DOG Caerffili: cefnogi medrau ar gyfer gwaith a lles**

Mae gan bartneriaeth DOG Caerffili nifer o brosiectau i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm ac adnabod y medrau cyflogadwyedd sydd eu hangen ar ddysgwyr hŷn. Mae'r partneriaid yn cynnwys cysylltiadau Datblygu Economaidd ag 'Adran Gymorth' yr awdurdod lleol a'r Ganolfan Byd Gwaith, ynghyd â chyflogwyr lleol. Mae'r grŵp hwn, o'r enw 'Fforwm y Bobl', yn cynorthwyo pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth, ac yn sicrhau bod deilliannau da ar gyfer iechyd, diogelwch a lles cyffredinol dysgwyr hŷn. Mae'r fforwm yn cynnwys yr adran gwasanaethau cymdeithasol, cymdeithasau tai a sefydliadau'r sector gwirfoddol fel Gofal Cymru, Cymorth i Ferched, Cymdeithas y Deillion a Mencap.

Mae cysylltiadau cadarnhaol â Working Links a Phontydd i Waith. Mae'r rhaglenni hyn yn helpu pobl hŷn i ennill cymwysterau pellach ac ailhyfforddi ar gyfer meysydd gwaith newydd.

### **Mae partneriaeth DOG Caerffili yn cydweithio â Phartneriaethau Cymunedol**

Mae cysylltiadau'n gwella rhwng nifer o gyfarfodydd Partneriaethau Cymunedol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghaerffili, lle mae rheolwyr lleol yn trafod y cwricwlwm ac anghenion dysgu gyda dinasyddion lleol.

Mae'r Uwch Reolwr Addysg Gymunedol a Rheolwr Prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn aelodau o Grŵp Medrau, Addysg a Chyflogaeth (SEE) Caerffili. Mae'r aelodau'n cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Datblygu Economaidd, colegau addysg bellach, Cyngor ar Bopeth, Gyrfa Cymru ac arweinwyr busnes lleol, sy'n gyfrifol am oruchwylio integreiddiad a chydlynid ymyriadau i helpu ystod o oedrannau. Mae'r grŵp yn helpu pobl 25 oed neu'n hŷn i fanteisio ar eu medrau a'u defnyddio i ddod o hyd i waith cynaliadwy. Mae'r grŵp yn ffurfio'r prif gysylltiad rhwng addysg ac adfywio ac yn cefnogi gweithrediad y Strategaeth Medrau Sylfaenol i oedolion.

### **Mae partneriaeth DOG Castell-nedd Port Talbot yn cefnogi hawliau lles**

Mae partneriaeth DOG Castell-nedd Port Talbot yn cydweithio ag Uned Hawliau Lles yr awdurdod lleol i sicrhau y gall gweithwyr y bartneriaeth fod yn fan cyswllt ar gyfer pobl hŷn i'w gwneud yn ymwybodol o'r newidiadau diweddar i daliadau lles.

### **Partneriath DOG Blaenau Gwent: cydweithio i hyrwyddo medrau cyflogaeth**

Ym Mlaenau Gwent, mae'r Cydlynnydd Dysgu Pontydd i Waith 50+, y bartneriaeth DOG, Tiwtor TGCh a Swyddog Datblygu yn cysylltu â'i gilydd yn rheolaidd i hyrwyddo dysgu medrau newydd ac i gyflwyno sesiynau blasu i annog dysgu yn y gymuned. Hefyd, mae aelodau staff hamdden Blaenau Gwent yn ymuno â'r Grŵp Llywio Life Begins @ 50+ i drefnu a rhoi cyngor ar sesiynau blasu ar gyfer gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

### **Mae rhaglen Heneiddio'n Dda Ynys Môn yn cynnwys hyfforddi monitoriaid cymheiriaid**

Mae darparwyr yn Ynys Môn yn defnyddio dull gwahanol o fynd i'r afael ag anghenion dysgwyr hŷn. Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda wedi'i hariannu gan y Gronfa Loteri Fawr am gyfnod o dair blynedd. Mae'r rhaglen yn cynorthwyo pobl hŷn yn dda ac yn ymateb i'w hanghenion dysgu trwy gynnis ystod briodol o gyfleoedd dysgu. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- ymarfer corff fel dawnsio a Tai Chi;
- defnyddio TG a sesiynau dysgu gydol oes eraill fel coginio i ddynion;
- cyngor a gwybodaeth;
- prosiectau gwirfoddoli; a
- chysylltiadau rhwng y rhaglen a gwasanaethau statudol e.e. y rhaglen cleifion arbenigol, atal damweiniau disgyn a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff.

Hefyd, mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol wedi hyfforddi tîm o bobl hŷn i fod yn fonitoriaid cymheiriaid i gynnal ymweliadau rheolaidd â chartrefi gofal a monitro profiad defnyddwyr gwasanaethau o ran urddas a pharch.

Mae cyfweiliadau gyda dysgwyr ar y rhaglen Heneiddio'n Dda yn dangos nifer o ddeilliannau pwysig i'r dysgwyr hŷn. Mae pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn gadarnhaol ac yn hyderus yn yr amgylchedd dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ennill medrau dysgu annibynnol effeithiol ac yn parhau i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Maent yn defnyddio eu medrau'n dda mewn lleoliadau cymunedol, yn y gwaith neu gyda'u teuluoedd. Maent yn gwella eu hunan-barch a'u hyder. Maent yn dangos lefelau uchel o gymhelliant ac maent yn frwdfrydig. Maent yn mynychu'n dda neu'n sicrhau eu bod yn dal i fyny ag unrhyw waith maent yn ei fethu. Maent yn dangos parch a phryder tuag at ei gilydd ac yn gwrando'n astud. Mae llawer o ddysgwyr yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu dysgu. Mae pob dysgwr yn mwynhau dysgu. Maent yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau iddyn nhw'u hunain a phobl eraill.

### **Mae gan bartneriaeth DOG Abertawe ganolfan ddysgu gymunedol i bobl hŷn**

Mae'r ganolfan hon yn cynnis gweithgareddau hunangyfeiriedig a gweithgareddau wedi'u hunanariannu. Mae'r rhaglen yn annog dysgwyr hŷn i ymuno, ac roedd llawer ohonynt o'r farn eu bod yn rhy hen i ddysgu. Mae'r aelodau'n annog eu cymdogion i

ymuno. Dywedodd un dysgwr, fel rhywun a oedd yn byw ar ei phen ei hun, ei bod o'r farn bod mynychu dosbarthiadau yn ychwanegu at ei hymdeimlad o ddiogelwch. Pe na fyddai'n bresennol, roedd yn gwybod y byddai'r tiwtor yn ceisio cysylltu â hi ac roedd hyn yn gwneud iddi deimlo'n fwy diogel.

Oherwydd maint y galw am sesiynau dysgu byr, yn hytrach na chynnig ystod o gyrsiau TG ffurfiol, mae gan y bartneriaeth raglen beilot ar gyfer gweithdai TGCh hyblyg, fel nad oes angen i ddysgwr ymrestru am flwyddyn gyfan. Mae deg sesiwn gweithdy TG sy'n para tua thair awr yn cael eu cynnig mewn pum lleoliad. Caiff gweithdai eu cynnal bob dydd yn ystod yr wythnos. Mae dysgwyr yn mynychu ac yna'n symud ymlaen gan ddibynnu ar eu hanghenion penodol. Mae'r sesiynau hyn yn cynorthwyo dysgwyr hŷn nad ydynt yn dymuno dilyn cwrs cymhwyster llawn, ond sydd am ddiweddarau eu medrau TG fel y gallant gael gwybodaeth ar y we neu ddefnyddio e-bost i gyfathrebu â'u teulu a ffrindiau.

Hefyd, mae dysgwyr hŷn yn Abertawe yn cyfrannu'n dda at y broses o gynllunio eu dysgu trwy weithio ar fforymau a/neu gyfrannu at gyfarfodydd ffocws.

## Atodiad 2: Sail y dystiolaeth

- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, data gwasanaethau gyrfaoedd a chyflogaeth ar bobl dros 50 oed;
- Ffigurau'r Cyfrifiad cenedlaethol;
- Holiaduron gan Gydlynwyr Pobl Hŷn;
- Ymweliadau â phartneriaethau DOG Gwynedd ac Ynys Môn, Abertawe, Caerffili, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr; a
- Chyfweliadau â dysgwyr o bartneriaethau DOG.

Roedd y llenyddiaeth a adolygwyd yn cynnwys:

- Cyflwyno Dysgu yn y Gymuned;
- Learning through Life, Tom Schuller a David Watson;
- Taking Part? Active Learning for Active Citizenship and Beyond, Marjorie Mayo a John Annette;
- Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru; Llywodraeth Cymru;
- Ar Draws Ffiniau: Adroddiad Beecham;
- Y Strategaeth Pobl Hŷn;
- Penderfyniad y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn; ac
- Adolygiad o'r holl adroddiadau arolygu DOG o'r cylch arolygu diwethaf.

### Atodiad 3: Crynodeb o boblogaeth y Deyrnas Unedig, 2010

#### Cymru

| Oedrannau                 | Cyfanswm         |            | Gwrywod          |          | Benywod          |          |
|---------------------------|------------------|------------|------------------|----------|------------------|----------|
| <b>Pob oedran</b>         | <b>3,006,400</b> | <b>%</b>   | <b>1,470,900</b> | <b>%</b> | <b>1,535,500</b> | <b>%</b> |
| 50-54                     | 193,600          | 6%         | 94,400           | 6%       | 99,200           | 6%       |
| 55-59                     | 186,200          | 6%         | 91,000           | 6%       | 95,200           | 6%       |
| 60-64                     | 202,800          | 7%         | 99,800           | 7%       | 102,900          | 7%       |
| 65-69                     | 162,800          | 5%         | 79,100           | 5%       | 83,700           | 5%       |
| 70-74                     | 132,700          | 4%         | 63,000           | 4%       | 69,700           | 5%       |
| 75-79                     | 106,600          | 4%         | 48,000           | 3%       | 58,600           | 4%       |
| 80-84                     | 79,500           | 3%         | 32,400           | 2%       | 47,100           | 3%       |
| 85-89                     | 51,100           | 2%         | 17,700           | 1%       | 33,400           | 2%       |
| 90 neu'n hŷn              | 25,400           | 1%         | 7,200            | 0%       | 18,300           | 1%       |
| <b>Canran dros 50 oed</b> |                  | <b>38%</b> |                  |          |                  |          |

#### Yr Alban

| Oedrannau                 | Cyfanswm         |            | Gwrywod          |          | Benywod          |          |
|---------------------------|------------------|------------|------------------|----------|------------------|----------|
| <b>Pob oedran</b>         | <b>5,222,100</b> | <b>%</b>   | <b>2,530,300</b> | <b>%</b> | <b>2,691,800</b> | <b>%</b> |
| 50-54                     | 366,200          | 7%         | 177,400          | 7%       | 188,900          | 7%       |
| 55-59                     | 324,000          | 6%         | 158,100          | 6%       | 165,900          | 6%       |
| 60-64                     | 327,500          | 6%         | 159,600          | 6%       | 167,900          | 6%       |
| 65-69                     | 254,800          | 5%         | 120,400          | 5%       | 134,400          | 5%       |
| 70-74                     | 219,100          | 4%         | 99,700           | 4%       | 119,400          | 4%       |
| 75-79                     | 176,100          | 3%         | 74,900           | 3%       | 101,200          | 4%       |
| 80-84                     | 122,900          | 2%         | 47,300           | 2%       | 75,700           | 3%       |
| 85-89                     | 71,400           | 1%         | 23,700           | 1%       | 47,700           | 2%       |
| 90 neu'n hŷn              | 35,200           | 1%         | 9,200            | 0%       | 26,000           | 1%       |
| <b>Canran dros 50 oed</b> |                  | <b>36%</b> |                  |          |                  |          |

## Lloegr

| Oedrannau                 | Cyfanswm          |            | Gwrywod           |          | Benywod           |          |
|---------------------------|-------------------|------------|-------------------|----------|-------------------|----------|
| <b>Pob oedran</b>         | <b>52,234,000</b> | <b>%</b>   | <b>25,757,600</b> | <b>%</b> | <b>26,476,400</b> | <b>%</b> |
| 50-54                     | 3,308,000         | 6%         | 1,637,200         | 6%       | 1,670,800         | 6%       |
| 55-59                     | 2,970,600         | 6%         | 1,460,700         | 6%       | 1,509,900         | 6%       |
| 60-64                     | 3,140,200         | 6%         | 1,535,300         | 6%       | 1,604,900         | 6%       |
| 65-69                     | 2,434,600         | 5%         | 1,174,600         | 5%       | 1,260,000         | 5%       |
| 70-74                     | 2,052,300         | 4%         | 968,200           | 4%       | 1,084,100         | 4%       |
| 75-79                     | 1,668,400         | 3%         | 749,100           | 3%       | 919,200           | 3%       |
| 80-84                     | 1,253,200         | 2%         | 513,400           | 2%       | 739,800           | 3%       |
| 85-89                     | 791,900           | 2%         | 278,000           | 1%       | 513,900           | 2%       |
| 90 neu'n hŷn              | 405,900           | 1%         | 115,000           | 0%       | 290,900           | 1%       |
| <b>Canran dros 50 oed</b> |                   | <b>35%</b> |                   |          |                   |          |

## Gogledd Iwerddon

| Oedrannau                 | Cyfanswm         |            | Gwrywod        |          | Benywod        |          |
|---------------------------|------------------|------------|----------------|----------|----------------|----------|
| <b>Pob oedran</b>         | <b>1,799,400</b> | <b>%</b>   | <b>884,400</b> | <b>%</b> | <b>915,000</b> | <b>%</b> |
| 50-54                     | 113,300          | 6%         | 55,700         | 6%       | 57,600         | 6%       |
| 55-59                     | 97,700           | 5%         | 48,900         | 6%       | 48,800         | 5%       |
| 60-64                     | 93,200           | 5%         | 45,400         | 5%       | 47,800         | 5%       |
| 65-69                     | 79,500           | 4%         | 38,000         | 4%       | 41,500         | 5%       |
| 70-74                     | 63,700           | 4%         | 29,400         | 3%       | 34,300         | 4%       |
| 75-79                     | 50,700           | 3%         | 21,900         | 2%       | 28,800         | 3%       |
| 80-84                     | 37,000           | 2%         | 14,000         | 2%       | 23,000         | 3%       |
| 85-89                     | 20,200           | 1%         | 6,700          | 1%       | 13,500         | 1%       |
| 90 neu'n hŷn              | 9,500            | 1%         | 2,400          | 0%       | 7,100          | 1%       |
| <b>Canran dros 50 oed</b> |                  | <b>31%</b> |                |          |                |          |

## Atodiad 4: Partneriaethau DOG yng Nghymru

| Enw'r bartneriaeth  | Enw'r darparwr a ariennir gan AdAS  |
|---------------------|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr  | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Dysgu<br>Oedolion yn y Gymuned<br>Cymraeg i Oedolion Prifysgol Morgannwg<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))   |
| Caerdydd            | Coleg y Barri<br>Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg<br>Cyngor Caerdydd – Ysgolion a Dysgu Gydol Oes<br>Coleg Glan Hafren<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))<br>Coleg Cymunedol YMCA Cymru   |
| Sir Gaerfyrddin     | Cyngor Sir Gâr<br>Coleg Sir Gâr<br>Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))   |
| Ceredigion          | Canolfan Cymraeg i Oedolion Canolbarth Cymru Prifysgol<br>Abertawe<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Dysgu Bro Ceredigion<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))  |
| Conwy/Sir Ddinbych  | Coleg Harlech CAG(G)<br>Coleg Llandrillo<br>Coleg Iâl   |
| Y Pum Sir           | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Coleg Gwent<br>Cyngor Sir Fynwy<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))<br>Coleg Ystrad Mynach |
| Sir y Fflint        | Cymraeg i Oedolion Prifysgol Bangor<br>Coleg Harlech CAG(G)<br>Coleg Glannau Dyfrdwy  |
| Gwynedd ac Ynys Môn | Coleg Harlech CAG(G)<br>Coleg Menai/Coleg Meirion Dwyfor<br>Cymraeg i Oedolion Ysgol Ieithoedd Rhanbarthol Prifysgol<br>Bangor  |

|                          |   |
|--------------------------|---|
| Merthyr Tudful           | Prifysgol Morgannwg, Cymraeg i Oedolion<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful<br>Coleg Merthyr                                  |
| Castell-nedd Port Talbot | Coleg Castell-nedd Port Talbot<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot<br>Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D)) |
| Sir Benfro               | Coleg Sir Benfro<br>Cyngor Sir Penfro<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))  |
| Rhondda Cynon Taf        | Coleg Morgannwg<br>Awdurdod Lleol RhCT – Addysg i Oedolion<br>Cymraeg i Oedolion Prifysgol Morgannwg<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))<br>YMCA                         |
| Abertawe                 | Coleg Gŵyr<br>Cymraeg i Oedolion yr Ysgol Ieithoedd Rhanbarthol<br>Cyngor Dinas a Sir Abertawe<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))                                       |
| Bro Morgannwg            | Coleg y Barri<br>Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg<br>Cyngor Sir Bro Morgannwg<br>Cymdeithas Addysg y Gweithwyr De Cymru (CAG(D))<br>Coleg Cymunedol YMCA            |
| Wrecsam                  | Coleg Harlech/CAG(G)<br>Coleg Iâl<br>Adran Hamdden a Diwylliant CBS Wrecsam   |

## Atodiad 5: Gyrfa Cymru; cysylltiadau i oedolion – dysgwyr hŷn 2008/2009

Cyfanswm yr holl gleientiaid: Rhoi gwybodaeth 27,324  
Sesiynau arweiniad 28,953

| Oedran   | Rhoi gwybodaeth |         |          | Sesiynau arweiniad |         |          |
|----------|-----------------|---------|----------|--------------------|---------|----------|
|          | Gwrywod         | Benywod | Cyfanswm | Gwrywod            | Benywod | Cyfanswm |
| 50-59    | 3,132           | 1,804   | 4,936    | 3,607              | 1,913   | 5,520    |
| 60+      | 500             | 175     | 675      | 520                | 102     | 622      |
| Cyfanswm | 3,632           | 1,979   | 5,611    | 4,127              | 2,015   | 6,142    |

## Atodiad 6: Monitor Pobl Hŷn

Diben y Monitor Pobl Hŷn yw 'monitro' lles pobl hŷn (50 oed neu'n hŷn) yng Nghymru. Ei nod yw darparu darlun amlddimensiwn, dibynadwy a chyfredol o les. Hwn yw'r cyntaf mewn cyfres o fonitrau a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i fonitro ac ymateb i dueddiadau allweddol, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ystyriaethau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r Monitor nesaf yn y gyfres wedi'i chynllunio ar gyfer 2011.

Mae'r Monitor yn adrodd ar ddata cyhoeddedig allweddol: y dystiolaeth fwyaf perthnasol, cyfredol ac o ansawdd uchel wedi'i seilio ar adolygiad gan Brifysgol Caerdydd ac, yn bwysig, lleisiau'r bobl hŷn eu hunain trwy astudiaeth ansoddol gan Brifysgol Glyndŵr.

Mae'r dangosyddion lles yr adroddwyd arnynt yn y penodau wedi'u seilio ar Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Dangosyddion Newid Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru Llywodraeth Cymru. Cynhwyswyd Dangosyddion Oes Cyfle yr Adran Gwaith a Phensiynau hefyd, lle bo hynny'n briodol. Caiff y dangosyddion hyn eu hadrodd ar lefel Cymru gyfan.

Adroddiad o'r monitor:

<http://wales.gov.uk/caec/research/ocsro/crynodebgweithredol?lang=cy>

Crynodeb o'r ystyriaethau a amlygwyd:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn disgrifio agweddau cymdeithasol tuag at bobl hŷn yn negyddol.
- Roedd gan y mwyafrif o'r ymatebwyr bryderon ynghylch heneiddio.
- Yr ystyriaethau mwyaf amlwg oedd pryderon ynghylch dirywiad meddyliol a chynnal annibyniaeth.
- Roedd y pryder a godwyd amlaf yn ymwneud â'r syniad o fynd i ofal preswyl.
- Mynegwyd dymuniad am ragor o wybodaeth hawdd ei chael yn manylu ar hawliau pobl hŷn.
- Roedd yr ymatebwyr yn anfodlon â'r disgwyliad i dalu am anghenion iechyd a gofal cymdeithasol mewn henaint. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn

wahaniaethol gan y rhai a oedd wedi cynilo a bod yn ofalus.

- Roedd y rhai a oedd yn gweithio am barhau i weithio cyn hired ag y gallant (er eu bod am leihau eu horiau).
- Roedd gan ymatebwyr ddisgwyliadau iechyd yn ymwneud ag oedran. Hynny yw, roeddent yn disgrifio iechyd da yn 'dda ar gyfer fy oedran', yn hytrach nag yn dda ynddo'i hun.
- Tra bod gwasanaethau meddyg teulu'n cael eu hystyried yn gadarnhaol, yn gyffredinol, roedd canfyddiadau o ofal mewn ysbytai yn amrywio, ac yn negyddol yn bennaf mewn perthynas â gofal i bobl hŷn mewn ysbytai.
- Dyfynnwyd cymdogaethau a chymunedau yn elfennau allweddol o foddhad â'u llety cyfredol a'u canfyddiadau o ddiogelwch.
- O ran cyfranogiad cymdeithasol, gellid categorio'r ymatebwyr naill ai'n 'ymunwyr' neu'n 'bobl unig'.
- Ystyriwyd sicrwydd ariannol yn bwysig iawn, a mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bryderon ynghylch yr argyfwng economaidd cyfredol.
- Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynghylch pobl ifanc, yn enwedig lle'r oedd ganddynt gysylltiad â phobl ifanc trwy'r teulu, gwaith neu'r gymuned leol.
- Roedd diet iach yn bwysig i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr ac roeddent yn honni eu bod yn bwyta'n iach.

## Atodiad 7: Dadansoddiad o sampl o ymrestriadau dysgwyr DOG 2007-2010

### Dadansoddiad o ddysgwyr – Pob grŵp oedran a dewisiadau'r cwricwlwm

Mae'r dadansoddiad yn y cylch gwaith hwn wedi'i seilio ar graffu ar gofnodion ymrestru tua 13,000 o ddysgwyr 50 oed neu'n hŷn dros gyfnod o dair blynedd. Darparwyd y data ar gyfer yr arolwg hwn gan sampl o bump o ddarparwyr o bartneriaethau DOG.

|         | Maes Pwnc                | 50-54 | 55-59 | 60-64 | 65-69 | 70-74 | 75-79 | 80-84 | 85-89 | 90+ | Pob Oedran |
|---------|--------------------------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-----|------------|
| Gwrywod | Celf a chrefft           | 42    | 52    | 192   | 102   | 49    | 75    | 31    | 7     | 0   | 550        |
| Benywod | Celf a chrefft           | 222   | 353   | 488   | 458   | 336   | 159   | 70    | 34    | 10  | 2,130      |
| Gwrywod | Yn ymwneud â chyflogaeth | 100   | 63    | 96    | 100   | 65    | 51    | 149   | 5     | 4   | 633        |
| Benywod | Yn ymwneud â chyflogaeth | 230   | 235   | 251   | 318   | 452   | 273   | 25    | 36    | 8   | 1,828      |
| Gwrywod | Bwyd a Maeth             | 15    | 13    | 23    | 34    | 16    | 13    | 6     | 0     | 0   | 120        |
| Benywod | Bwyd a Maeth             | 75    | 49    | 62    | 45    | 49    | 38    | 11    | 5     | 3   | 337        |
| Gwrywod | Iechyd                   | 2     | 10    | 6     | 3     | 6     | 9     | 3     | 2     | 0   | 41         |
| Benywod | Iechyd                   | 65    | 70    | 60    | 50    | 39    | 29    | 10    | 9     | 1   | 333        |
| Gwrywod | Hanes                    | 5     | 2     | 8     | 14    | 4     | 10    | 2     | 1     | 0   | 46         |
| Benywod | Hanes                    | 12    | 24    | 33    | 23    | 16    | 10    | 2     | 0     | 1   | 121        |
| Gwrywod | TG                       | 103   | 127   | 245   | 315   | 242   | 245   | 157   | 20    | 2   | 1,456      |
| Benywod | TG                       | 315   | 325   | 446   | 527   | 563   | 323   | 64    | 34    | 8   | 2,605      |
| Gwrywod | Ieithoedd                | 68    | 87    | 163   | 173   | 106   | 63    | 33    | 4     | 1   | 698        |
| Benywod | Ieithoedd                | 284   | 217   | 230   | 188   | 128   | 52    | 5     | 17    | 2   | 1,123      |
| Gwrywod | Llythrennedd             | 76    | 32    | 29    | 38    | 13    | 16    | 13    | 0     | 0   | 217        |
| Benywod | Llythrennedd             | 180   | 157   | 96    | 66    | 44    | 21    | 0     | 1     | 0   | 565        |
| Gwrywod | Cerddoriaeth             | 24    | 29    | 40    | 47    | 38    | 19    | 9     | 1     | 0   | 207        |
| Benywod | Cerddoriaeth             | 22    | 28    | 36    | 39    | 49    | 23    | 5     | 3     | 0   | 205        |
| Gwrywod | Datblygiad personol      | 61    | 23    | 46    | 25    | 5     | 9     | 15    | 0     | 0   | 184        |
| Benywod | Datblygiad personol      | 83    | 70    | 60    | 50    | 39    | 29    | 10    | 9     | 1   | 351        |

## Atodiad 8: Cefndir i'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru

Mae angen yng Nghymru eisoes i flaengynllunio ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio a gwella nifer ac ansawdd y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i bobl dros 50 oed. Ysgogodd y ffactorau hyn Lywodraeth Cymru i sefydlu Grŵp Ymgynghorol oedd â'r dasg o gynghori ar anghenion pobl hŷn yng Nghymru.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am argymhellion y Grŵp Ymgynghorol a chrynodeb o'u canfyddiadau ar eu gwefan:

<http://wales.gov.uk/topics/olderpeople/publications/whenim64/?skip=1&lang=cy>. Mae

eu gwaith wedi llywio datblygiad Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, a lansiwyd ym mis Ionawr 2003. Mae'r Strategaeth bwysig hon yn ystyried

**Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn; sef annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunangyflawniad ac urddas.**

### Cynlluniau Llywodraeth Cymru

- **Gwerthfawrogi pobl hŷn:** Mae Llywodraeth Cymru'n ymroddedig i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn, hyrwyddo delweddau cadarnhaol o heneiddio a rhoi llais cryfach i bobl hŷn yn y gymdeithas, trwy:
  - Fforwm Partneriaeth Cenedlaethol i Bobl Hŷn;
  - datblygu ffyrdd i hyrwyddo delwedd gadarnhaol o bobl hŷn;
  - cynnwys pobl hŷn yn eu cymuned leol, mewn cynllunio gwasanaethau lleol a seilwaith;
  - datblygu polisïau i fynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol;
  - hyrwyddo datblygiad gwasanaethau integredig i fodloni anghenion pobl hŷn; a
  - datblygu system cludiant cymunedol well.
- **Cyflogaeth a dysgu:** Hyrwyddo a datblygu gallu pobl hŷn i barhau i weithio a dysgu cyn hired ag y dymunant, a chyfrannu'n weithredol wedi iddynt ymddeol, trwy:
  - gefnogi recriwtio a chadw pobl hŷn mewn gwaith;
  - mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran mewn cyflogaeth;
  - helpu pobl hŷn i sefydlu eu busnesau eu hunain, os ydynt yn dymuno gwneud hynny;
  - helpu pobl fusnes hŷn ac sy'n ymddeol i rannu eu profiadau ag entrepreneuriaid newydd;
  - rhoi cymaint o wybodaeth ag sydd ei hangen ar bobl hŷn am gyfleoedd dysgu yn eu hardal; a
  - rhwydwaith o ganolfannau dysgu cymunedol a chyfleusterau TG ledled Cymru.
- **Iechyd:** Hyrwyddo iechyd a lles pobl hŷn trwy gynlluniau integredig, fframweithiau cyflenwi gwasanaeth a gwasanaethau diagnostig a chymorth mwy ymatebol, trwy:
  - hyrwyddo iechyd da ymhlith pobl hŷn;
  - mynd i'r afael â'r amrywiadau mewn safonau gofal;

- lleihau effaith afiechyd ac anabledd ar bobl hŷn;
  - gwella Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol; a
  - datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn optometreg, gofal dannedd, maethiad, clyw a gwasanaethau fferyllfa.
- **Annibyniaeth:** Darparu gwasanaethau a chymorth o ansawdd uchel, a fydd yn galluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol â phosibl mewn amgylchedd addas a diogel, a sicrhau bod gwasanaethau aciwt, sylfaenol ac arbenigol ar gael i bobl hŷn pan fydd eu hangen arnynt, trwy:
    - annog cyflenwad digonol o dai addas ac addasiadau a fydd yn galluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol cyn hired â phosibl;
    - creu gweithdrefnau asesu unedig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol;
    - cynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau gofal canolraddol yn agos at gartref; a
    - hyrwyddo dewis yn yr ystod o wasanaethau gofal cartref.

Mae'r strategaeth wedi'i gosod mewn fframwaith o ddeng mlynedd o gamau gweithredu. Am ragor o wybodaeth am y cynllun gweithredu, ewch i: <http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?skip=1&lang=cy>

### Amcanion strategol

- Cydweithio â Llywodraeth y DU i gefnogi recriwtio a chadw pobl hŷn mewn gwaith;
- Cydweithio â Llywodraeth y DU i weithredu deddfwriaeth i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oedran mewn cyflogaeth;
- Helpu rhagor o bobl hŷn i sefydlu eu busnesau eu hunain ac annog pobl fusnes hŷn/sydd wedi ymddeol i drosglwyddo eu gwybodaeth a'u profiad i entrepreneuriaid newydd;
- Hyrwyddo manteision dysgu a darparu gwybodaeth a chyngor sydd ar gael yn rhwydd am y cyfleoedd dysgu sydd ar gael i ddarpar ddysgwyr o bob oedran;
- Creu rhwydwaith o ganolfannau dysgu cymunedol ledled Cymru, yn unol ag anghenion lleol; a
- Hyrwyddo a datblygu argaeledd cyfleusterau TG mewn cymunedau a medrau TG i bobl hŷn.

## Atodiad 9: Datganiad polisi dysgu yn y gymuned

### Beth yw dysgu oedolion yn y gymuned?

Mae DOG yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd dysgu, sy'n anodd eu crynhoi mewn diffiniad byr. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes diffiniad cytûn a chyffredin o DOG wedi arwain at anghysondeb o ran darpariaeth ledled Cymru ac anallu i nodi ac arfarnu'r maes cymhleth ond arwyddocaol hwn o ddysgu gydol oes. Felly, gan ystyried adborth gan ddarparwyr dysgu a rhanddeiliaid eraill, rydym yn diffinio DOG fel:

*Cyfleoedd dysgu hyblyg ar gyfer oedolion, a gyflwynir mewn lleoliadau cymunedol i fodloni anghenion lleol.*

- Mae DOG yn **hyblyg** gan ei fod yn cynnwys cyflwyno cyrsiau byr a rhan-amser yn bennaf sydd ar gael ar ystod o amseroedd ac mewn ystod o leoliadau.
- Caiff DOG **ei dargedu at oedolion dros 25 oed** yn bennaf. Nid yw hyn yn eithrio dysgwyr iau sy'n oedolion. Mae DOG yn elfen bwysig yn yr agenda *Lles i Waith* sy'n rhoi cyfle hanfodol ar gyfer y rhai nad ydynt yn ymgymryd ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i gymryd rhan mewn dysgu.

Dylai darpariaeth DOG ymroi i flaenoriaethu'r grwpiau canlynol o ddysgwyr:

- unrhyw un sy'n 16 oed ac yn hŷn sy'n dilyn rhaglen medrau sylfaenol a/neu SSIE DOG, yn cynnwys cyrsiau medrau sylfaenol a dinasyddiaeth yn eu cyd-destun;
- y rhai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ar hyn o bryd ac sy'n derbyn budd-daliadau neu gymorth gan y wladwriaeth (ac eithrio pensiwn ymddeol y wladwriaeth); neu'r
- rhai sy'n 50 oed ac yn hŷn ac nad ydynt mewn cyflogaeth amser llawn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

[http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/?s\\_kip=1&lang=cy](http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/?s_kip=1&lang=cy)

## **Atodiad 10: Crynodeb o ymatebion Cydlynwyr Pobl Hŷn**

Anfonodd Estyn holiadur at bob un o'r cydlynwyr i'w holi am eu barn a'u profiad o bobl hŷn mewn perthynas ag agweddau tuag at addysg i bobl hŷn a chyflwyno addysg i bobl hŷn yn eu hardal.

Llenwodd pob un o'r Cydlynwyr Pobl Hŷn holiadur ar gyfer yr adroddiad hwn a dywedant fod pobl hŷn yn wynebu ystod o rwystrau rhag parhau i ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- cost mynychu cyrsiau;
- argaeledd cludiant;
- pobl hŷn yn credu eu bod yn rhy hen i ddysgu;
- diffyg uchelgais gan weithwyr proffesiynol eraill;
- cyfrifoldebau teuluol yn effeithio ar gyfleoedd pobl hŷn;
- dysgu wedi'i achredu yn creu rhwystr i lawer o bobl hŷn;
- ble, sut a phryd;
- diffyg hyder; a
- phroblemau/canfyddiadau pobl hŷn yn ymwneud â'u golwg bersonol neu eu ffitrwydd presennol er mwyn gallu cymryd rhan mewn ymarfer corff.

Mae Cydlynwyr Pobl Hŷn hefyd yn disgrifio rhaglenni a ddatblygwyd ar gyfer pobl hŷn yn eu hardaloedd. Mewn llawer o bartneriaethau DOG, mae enghreifftiau o grwpiau pobl hŷn yn cael eu hannog i fod yn hunangynhaliol. Mae hyn wedi digwydd mewn celf a chrefft, gweithgareddau creadigol eraill a hanes lleol yn bennaf. Er enghraifft: mae grŵp o wyth o ddysgwyr benywaidd, pob un ohonynt dros 65 oed sy'n cymryd rhan mewn sesiynau crefft a barddoniaeth, wedi ffurfio clwb mewn un canolfan ddysgu gymunedol leol. Gall y fethodoleg hon fod yn un ffordd i gynorthwyo cyfranogiad a hunangyflawniad, cyn belled â bod gan y dysgwyr y medrau i gynnal y clwb.

Mae cysylltiad y Cydlynwyr Pobl Hŷn â phartneriaethau DOG ledled Cymru yn amrywio. Mae rhai ohonynt yn cysylltu'n rheolaidd, ond nid oes gan eraill gysylltiad rheolaidd neu unrhyw gysylltiad o gwbl.

Nid oes gan Gydylynwyr Pobl Hŷn ddulliau o hyrwyddo ystod o ddewisiadau dysgu ar gyfer pobl hŷn bob tro ac, er bod rhai prosiectau'n cael eu hariannu, mae llawer ohonynt yn rhai byrdymor neu nid ydynt yn cael eu cydlynu'n dda. Un enghraifft yw'r rhaglen Clic a hysbysebwyd gan y BBC yn ddiweddar.

### **Crynodeb o ymatebion y Cydlynwyr Pobl Hŷn i'r cwestiynau**

#### **C1 A yw pobl hŷn am barhau i ddysgu, yn eich profiad chi?**

At ei gilydd, mae gan tua 60% o'r dysgwyr hŷn sydd mewn cysylltiad â Chydlynwyr Pobl Hŷn ddiddordeb mewn parhau i ddysgu.

## **C2 Faint ohonynt sydd wedi'i chael yn anodd parhau i ddysgu?**

Asesiad y Cydlynwyr Pobl Hŷn:

- Mae'r mwyafrif o ddysgwyr hŷn yn wynebu rhwystrau rhag parhau i ddysgu. Mae nifer hon yn cysylltu'n sylweddol â'r niferoedd y mae Cydlynwyr Pobl Hŷn yn amcangyfrif y byddant yn croesawu cyfleoedd i ddysgu eto.

Ystyriaethau eraill sy'n effeithio ar ddysgwyr hŷn sydd am fanteisio ar ddysgu:

- cost cyrsiau;
- cludiant – yn enwedig mewn ardaloedd gwledig;
- llai o ddewisiadau dysgu oherwydd llai o gyllid;
- amseroedd pan fydd TG am ddim ar gael;
- annifyrrwch â chyfraddau rhatach, yn enwedig os oes angen iddynt ddweud eu bod yn cael budd-daliadau;
- diffyg hyder i ymuno, yn enwedig os cawsant brofiad negyddol yn yr ysgol;
- cyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden bywiog yn cael ei gyfyngu gan ganfyddiad o olwg bersonol, a lefelau ffitrwydd;
- y dull cyflwyno'n atal rhai sy'n ofalwyr rhag mynychu'n rheolaidd;
- diffyg hyblygrwydd mewn cyrsiau dysgu wedi'u hachredu i alluogi dysgwyr hŷn i fynychu a dewis a ydynt am ennill credyd ai peidio;
- dehongliad darparwyr o'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Oedran, sydd wedi creu llai o gonsesiynau i ddysgwyr hŷn; a
- rhai enghreifftiau lle nad yw lleoliadau'n hygyrch – mewn ardaloedd gwledig yn bennaf.

## **C3 A oes gennych unrhyw enghreifftiau lle mae pobl hŷn wedi trefnu eu gweithgareddau dysgu eu hunain sy'n eu helpu i gynnal neu ddatblygu medrau newydd?**

Mae dadansoddi atebion y Cydlynwyr Pobl Hŷn yn dangos y canlynol:

- roedd 9% o'r ymatebwyr yn adnabod llawer o ddysgwyr hŷn oedd yn trefnu eu dysgu eu hunain;
- dywedodd 36% o'r ymatebwyr fod tua hanner y dysgwyr hŷn yn trefnu eu dysgu eu hunain;
- dywedodd 28% o'r ymatebwyr fod llai na hanner o'r dysgwyr hŷn yn trefnu eu dysgu eu hunain; ac
- ni roddodd 27% o'r Cydlynwyr Pobl Ifanc ateb i'r cwestiwn.

Rhagor o wybodaeth:

- Roedd y rhan fwyaf o'r Cydlynwyr Pobl Hŷn yn cydnabod pwysigrwydd grwpiau wedi'u trefnu gan ddysgwyr hŷn. Enghreifftiau o "Felly rydych chi eisiau dysgu". Mae gan y grŵp hwn gyfansoddiad.
- Grŵp lechyd a Lles a grŵp TG am 50 wythnos o'r flwyddyn.
- Mae gan un awdurdod lleol nifer fawr o ddosbarthiadau 50+, gan gynnwys celf a

chreffft, dawnsio ac ymarfer corff.

- Soniodd pedwar awdurdod lleol arall am glybiau i ddysgwyr hŷn.
- Roedd rhai o'r cydlynwyr yn cydnabod nad oes ganddynt ddigon o wybodaeth am grwpiau hunangymorth a phwysigrwydd dysgu trwy gynulladau cymdeithasol: yn ymwneud â dysgu cymar wrth gymar, lle mae pawb yn dysgu, a chydabod bod pob math o addysgu'n bwysig iawn.
- Cymorth posibl gan addysg i oedolion awdurdodau lleol i sefydlu clybiau.
- Soniodd rhai cydlynwyr am Brifysgol y Drydedd Oes (U3A).
- Roedd dau gydlynnydd yn cydnabod y Fforwm 50+ yn sefydliad dysgu – roeddent yn trefnu siaradwyr rheolaidd i roi gwybodaeth i aelodau er mwyn cynorthwyo pobl hŷn eraill yn y gymuned. Cysylltiad gyda grwpiau fel Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro, Canolfan Gwirfoddol y Fro, y Cyngor Iechyd Cymuned ac Age Cymru.
- Mae gan Merched y Wawr 1,050 o aelodau ar draws y sir hon sy'n cymryd rhan mewn dysgu anffurfiol. Mae Age Concern yn darparu dysgu TG i bobl hŷn ac mae Sefydliad y Merched, sydd â 970 o aelodau, yn trefnu dosbarthiadau hefyd.
- Grŵp hanes cymunedol yn ysgrifennu am hanes y gymuned.
- Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda yn cynnwys aelodau'r dosbarthiadau coginio i ddynion sy'n ddigon hyderus yn eu medrau coginio i baratoi ciniawau ysgafn yn y ganolfan.
- Rhaglen monitoriaid cymheiriaid: mae adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyfforddi tîm o bobl hŷn i ymweld â chartrefi gofal yn rheolaidd i fonitro profiadau defnyddwyr gwasanaethau o ran urddas a pharch.
- Roedd 'dosbarth' nofio a ariannwyd gan yr awdurdod lleol wedi bod ar waith am 30 o flynyddoedd, er bod y gair 'dosbarth' braidd yn fras. Roedd pob un o'r nofwyr dros 50 oed a rhai ohonynt yn eu 80au a 90au. Tua 10 mlynedd yn ôl, oherwydd llai o gyllid ar gyfer dysgu yn y gymuned, hysbyswyd y grŵp nofio na fyddai cyllid a chymorth ar gael trwy'r awdurdod lleol mwyach. Dechreuodd y nofwyr grŵp wedi'i gyfansoddi gan y gymuned, a aeth ati nid yn unig i geisio cael cyllid a chymorth i gadw'r grŵp nofio i fynd, ond hefyd i sicrhau cynaliadwyedd yr holl weithgareddau cymunedol a oedd yn cael eu cynnal yn yr ysgol fro hon a'r ardal gyfagos. Er mwyn cyfiawnhau parhad y 'dosbarthiadau' nofio, ail-ffurfiodd y grŵp yn ddosbarth 'byw'n iach', gydag awr yn y pwll ar gyfer ymarfer corff ac awr yn yr ystafell ddosbarth i ddysgu am fwyta'n iach a sut i wella eu lles corfforol a meddyliol. Mae'r dosbarth hwnnw'n boblogaidd o hyd ac yn dal i fynd hyd heddiw â thros 35 o gyfranogwyr, yn amrywio o 50 i 80 oed, 95% ohonynt yn fenywod a 5% ohonynt yn wrywod. Mae'n cyfarfod am awr yr wythnos am 50 wythnos o'r flwyddyn. Mae medrau dysgu wedi gwella hyder, symudedd, y meddwl a'r corff.
- Grŵp technoleg gwybodaeth a chyfathrebu â 10 o gyfranogwyr yn amrywio o 50 i 75 oed; 50% ohonynt yn fenywod a 50% ohonynt yn wrywod. Hanfodion bysellfwrdd, llygoden a rhaglenni. Symud ymlaen i gynhwysiant digidol ar y rhyngwyd, defnyddio camerâu digidol ac ati.

#### **C4 A yw pobl hŷn yn eich ardal yn gallu manteisio ar addysg a hyfforddiant pellach ar hyn o bryd, a fydd yn eu cynorthwyo i wella'r siawns o aros mewn cyflogaeth?**

- Roedd hyn yn anoddach i'r Cydlynwyr Pobl Hŷn ei amcangyfrif. Rhoddwyd rhai enghreifftiau, er bod llawer o'r cydlynwyr yn cydnabod cyfraniad sylweddol

gweithgareddau dysgu at les pobl hŷn.

- Soniodd y rhan fwyaf o'r cydlynwyr am yr ystod o gyfleoedd dysgu sydd ar gael ac roedd yr ystod yn amrywio'r sylweddol rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.
- Rhoddodd dau o'r cydlynwyr wybod am hunan-barch isel a'r gred bod hyfforddiant ar gyfer pobl iau, sy'n achosi rhwystr i ddysgwyr hŷn. Mewn rhai achosion, roedd y cydlynwyr o'r farn bod hyfforddiant yn cael ei lunio â phobl ifanc mewn golwg yn unig, a bod darparwyr hyfforddiant mawr yn aml yn defnyddio lluniau o bobl ifanc yn unig i hysbysebu cyfleoedd dysgu.

Soniodd y cydlynwyr am y ffynonellau cyllid canlynol:

- Cyllid Ewropeaidd: Bydd Taith i Waith a Gweithffyrdd Abertawe yn darparu porth i ddysgu a chyflogaeth, yn ogystal ag, er enghraifft, mentrau fel Adeiladu Sgiliau trwy Hyfforddiant Cyflogaeth, Cronfa Swyddi'r Dyfodol, Paru Swyddi, Hyfforddiant Torfaen, yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), y rhaglen Sgiliau Gwaith i oedolion a'r cynllun React. Mae'r rhaglen Heneiddio'n Dda wedi creu nifer o gyfleoedd gwirfoddoli a bu achosion lle mae pobl wedi dychwelyd i'r gwaith.

### **C5 Faint o gysylltiad sydd gennych, fel gweithiwr, â darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned yn eich ardal?**

Atebodd 50% o'r cydlynwyr, gan nodi'r lefelau cysylltiad canlynol â phartneriaethau DOG:

|                    |     |
|--------------------|-----|
| Unwaith y flwyddyn | 18% |
| Unwaith y tymor    | 18% |
| Rheolaidd          | 55% |
| Heb ateb           | 9%  |

- Mae ystod eang o gysylltiadau a chyfarfodydd gwahanol mewn llawer o awdurdodau lleol.
- Cyfeiriwyd at gymorth i ddatblygu medrau trwy weithgareddau fel sesiynau blasu. Gall ystod o sefydliadau'r sector gwirfoddol gyfrannu at ddarparu cyfleoedd dysgu i oedolion mewn lleoliadau cymunedol, er enghraifft Age Concern, MIND, Cymdeithasau Tai a phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.
- Mae'r cydlynwyr yn cydweithio â fforymau 59+ yn eu hardaloedd lleol. Mae llawer o weithwyr addysg yn y gymuned yn aelodau o grwpiau strategol 50+.
- Crybwyllodd tuag 18% o'r cydlynwyr eu bod yn cydweithio â swyddogion strategol mewn addysg gymunedol/dysgu yn y gymuned ac un cydlynnydd yn unig a ddywedodd ei fod yn cyfrannu at ddogfennau strategol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer dysgwyr hŷn.
- Disgrifiodd un cydlynnydd yn unig gyrsiau a sesiynau sy'n cael eu darparu ar gyfer dysgwyr hŷn trwy gydweithio â'r bartneriaeth dysgu yn y gymuned leol.

### **C6 A yw'r cysylltiad hwn yn helpu i ddatblygu rhagor o gyfleoedd i bobl hŷn leol fanteisio ar ddysgu sy'n eu helpu i gadw'n weithgar yn ddeallusol?**

- Lle mae perthnasoedd gwaith da wedi'u datblygu, rhoddodd y cydlynwyr lawer o enghreifftiau da o gydnabod anghenion dysgwyr hŷn.

- Soniodd tua 40% o'r cydlynwyr am anawsterau o ran cyllid ac argaeledd adnoddau i gefnogi anghenion dysgwyr hŷn. Lle rhoddwyd enghreifftiau, ariannwyd y rhaglenni hyn gan gyllid prosiect, ar raglenni byr yn aml.
- Lle rhoddwyd enghreifftiau, roedd dysgu'n aml yn ymestyn allan i leoliadau lle mae dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd ac sy'n cael eu hallgáu yn byw, er enghraifft, gofal preswyl a chymdeithasau tai.
- Roedd y sesiynau hyn yn darparu cyfle i gynorthwyo byw'n iach, gwirfoddoli ac ailymuno â'r byd gwaith.
- Weithiau, mae gan Bartneriaethau Dysgu i Oedolion wobrau ar gyfer Dysgwr Hŷn y Flwyddyn a gwobrau rhyng-genhedlaeth i annog dysgu i bobl hŷn a rhoi cyhoeddusrwydd iddo.
- Rhoddwyd enghreifftiau o waith sy'n anodd ei gyfnerthu. Er enghraifft, ar ôl ymgynghori â grwpiau lleol, sefydlwyd grwpiau ond gostyngodd y nifer a oedd yn bresennol. Roedd y rhesymau'n cynnwys costau cynyddol, tywydd gwael, ffrindiau'n sâl neu'n wael. (Ychydig iawn a ddywedwyd am yr arddull addysgu, dull cyflwyno neu newid dewisiadau i'r rhai a oedd yn bresennol ond nad oedd yn rhan o'r ymgynghoriad gwreiddiol.)
- Sefydlwyd llawer o brosiectau â deilliannau llwyddiannus, ond maent wedi cael trafferth cynnal eu perfformiad wedi i'r gweithwyr cymorth neu'r cymorthdaliadau gael eu tynnu'n ôl. Mae hyn wedi creu rhwystrau, er enghraifft, o ran diweddarau gwybodaeth a chlodiant. (Mae Dysgu Gyda'n Gilydd wedi bod yn llwyddiant ysgubol oherwydd yr 'arweinydd' a'r ymagwedd gymunedol. Mae cyllid yn broblem wirioneddol o ran bodloni anghenion mewn sir wledig.)
- Hefyd, rhoddwyd tensiwn rhwng partneriaid sy'n cydweithio â'i gilydd a diffyg cyfleoedd cyllid fel enghreifftiau o fethu â darparu rhaglenni i ddysgwyr hŷn sy'n eu cynorthwyo i gymryd rhan.

### **Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

| <b>Tîm yr adroddiad cylch gwaith</b> | <b>Rôl</b>              |
|--------------------------------------|-------------------------|
| Enid Hankins                         | AEM Arolygydd Arweiniol |
| Susan Halliwell                      | AEM Arolygydd Tîm       |